# Pecyn Cyhoeddus

Cyngor Sir
CEREDIGION
County Council

Neuadd Cyngor Ceredigion, Penmorfa,
Aberaeron, Ceredigion SA46 0PA
ceredigion.gov.uk

Date Not Specified

Lisa Evans

**Annwyl Syr / Fadam**

**Ysgrifennaf i'ch hysbysu y cynhelir Cyfarfod o Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Cymunedau sy'n Dysgu, o bell trwy fideo-gynhadledda, Dydd Llun, 20 Medi 2021 am 10.00 am i drafod y materion canlynol:**

**1.** **Ymddiheuriadau**

**2.** **Datgelu buddiant personol (gan gynnwys datganiadau chwipio)**
**Atgoffir aelodau am eu cyfrifoldeb personol yn datgan unrhyw fudd personol a budd sydd yn rhagfarnu yn gysylltiedig â materion a gynhwysir yn yr agenda hwn yn unol â darpariaethau Deddf Llywodraeth Leol 2000, Cyfansoddiad y Cyngor a Chod Ymddygiad Aelodau. Yn ogystal, mae'n rhaid i Aelodau ddatgan unrhyw chwip plaid gwaharddedig a roddwyd ar Aelod yng nghyswllt y cyfarfod yn ôl Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2011.**

**3.** **Diweddariad ar lafar parthed cefnogaeth y Gwasanaeth Ysgolion dros y cyfnod COVID 19**

**4.** **Diweddariad ar dri Gwasanaeth o fewn Porth Cymorth Cynnar (Uned Cyfeirio Disgyblion, Gwasanaethau Cymorth ac Atal a Dysgu Gydol Oes a Sgiliau) (Tudalennau 3 - 22)**

**5.** **Strategaeth Anghenion Dysgu Ychwanegol (Tudalennau 23 - 28)**

**6.** **Proses dyfarnu canlyniadau TGAU a Lefel A 2021 (Tudalennau 29 - 32)**

**7.** **Llythyr Estyn, tymor yr Haf 2021 (Tudalennau 33 - 40)**

**8.** **Diweddariad ar gefnogaeth yr Awdurdod i Ysgolion wrth iddynt baratoi at fabwysiadu Cwricwlwm i Gymru (Tudalennau 41 - 46)**

**9.** **Cadarnhau Cofnodion y Cyfarfod blaenorol ac ystyried unrhyw faterion sy'n codi o'r Cofnodion (Tudalennau 47 - 52)**

**10.** **Ystyried Rhaglen Flaen Trosolwg a Chraffu (Tudalennau 53 - 56)**

**Atgoffir yr Aelodau y dylent lofnodi'r Gofrestr Bresenoldeb**

**Darperir Gwasanaeth Cyfieithu ar y Pryd yn y cyfarfod hwn ac mae croeso i'r sawl a fydd yn bresennol ddefnyddio'r Gymraeg neu'r Saesneg yn y cyfarfod.**

**Yn gywir**



**Miss Lowri Edwards**
**Swyddog Arweiniol Corfforaethol: Gwasanaethau Democrataidd**

**At: Gadeirydd ac Aelodau Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Cymunedau sy'n Dysgu**
**Weddill Aelodau'r Cyngor er gwybodaeth yn unig.**

Eitem Agenda 4

## Cyngor Sir CEREDIGION Cyngor Sir

| | |
|---|---|
| **ADRODDIAD I'R:** | **Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Cymunedau sy'n Dysgu** |
| **DYDDIAD:** | **20 Medi 2021** |
| **LLEOLIAD:** | **Fideo-gynadledda** |
| **TEITL:** | **Diweddariad ar dri Gwasanaeth o fewn Porth Cymorth Cynnar (Uned Cyfeirio Disgyblion, Gwasanaethau Cymorth ac Atal a Dysgu Gydol Oes a Sgiliau)** |
| **PWRPAS YR ADRODDIAD:** | **Rhoi diweddariad ar y canlynol**<br>• **Uned Cyfeirio Disgyblion Ceredigion**<br>• **Gwasanaeth Cymorth ac Atal**<br>• **Dysgu Gydol Oes a Sgiliau** |
| **RHESWM Y MAE'R PWYLLGOR CRAFFU WEDI GOFYN AM YR WYBODAETH HON:** | **Darparu gwybodaeth am ddatblygiad y Gwasanaethau uchod o fewn y Porth Cymorth Cynnar ac fel rhan o'r Rhaglen Llesiant a Gydol Oed** |

**CEFNDIR:**

Mae **Uned Cyfeirio Disgyblion (UCD) Ceredigion** wedi trosglwyddo'n raddol o Addysg i'r Porth Cymorth Cynnar dros y flwyddyn academaidd 2020-21. Yn dilyn dau gyfnod o ymgynghori (un ar gyfer Athrawon ac un ar gyfer Mentoriaid) o fis Medi 2021, bydd yr Uned Cyfeirio Disgyblion yn rheoli 6 Athro a 6 Mentor i gefnogi addysg pobl ifanc fwyaf agored i niwed yng Ngheredigion.

Nododd y cynnig i'r Uned Cyfeirio Disgyblion gael ei throsglwyddo i'r Porth Cymorth Cynnar fel a ganlyn:

> *Bydd adleoli'r Unedau Cyfeirio Disgyblion i'r Porth Cymorth Cynnar yn sicrhau partneriaeth well rhwng yr Unedau Cyfeirio Disgyblion a'r Gwasanaethau Cymorth yn y Porth Cymorth Cynnar, ynghyd â mwy o gydlyniant â gwasanaethau eraill yn y Rhaglen Llesiant a Gydol Oed. Dylai'r newidiadau arfaethedig hyn ddarparu canlyniadau gwell i blant, pobl ifanc a'u teuluoedd trwy hwyluso gwasanaethau ymyrraeth gynnar ac atal.*
>
> *Bydd yr Uned Cyfeirio Disgyblion yn parhau fel ysgol, ac felly bydd y Gwasanaeth Ysgolion yn cyflawni'r holl swyddogaethau gwella ysgolion. Bydd hyn yn cynnwys Rheoli Perfformiad y Pennaeth, yr holl fforymau a chyfarfodydd Penaethiaid, a mynediad llawn at gefnogaeth, polisïau a strategaethau Cynghorydd Herio. Bydd y Gwasanaeth Ysgolion yn parhau i ddarparu addysg broffesiynol ar gyfer arweinyddiaeth a'r cwricwlwm. Bydd staff yr Unedau Cyfeirio Disgyblion yn parhau i fod â pherthynas weithio agos â phob agwedd ar y Gwasanaeth Ysgolion, yn enwedig y tîm Cynhwysiant.*

## Strwythur Staffio'r Uned Cyfeirio Disgyblion:

| Gareth Lewis - Pennaeth | | | | |
|---|---|---|---|---|
| **Charlie Day (0.8)**<br><br>Athro â Gofal Eos<br><br>Arweinydd Bugeiliol, Iechyd a Llesiant<br><br>Arweinydd Maes Dysgu a Phrofiad Llythrennedd, Iaith a Cyfathrebu | **Ricky Jordan (1.0)**<br><br>Athro â Gofal Aeron<br><br>Arweinydd y Dyniaethau | **Alex Meredith (1.0)**<br><br>Cydlynydd Anghenion Dysgu Ychwanegol<br><br>Arweinydd y Celfyddydau Mynegiannol | **Rob Evans (1.0)**<br><br>Iechyd a Llesiant - Arweinydd Addysg Gorfforol | **Mike Vobe (0.6)**<br><br>Arweinydd Mathemateg a Rhifedd |
| **Rheolwyr Llinell Mentoriaid:** | | | | |
| **Sioned Jones**<br><br>**Louisa Scannell** | **John Lynch**<br><br>**Gethin Roberts** | **Sam Cooper** | **Angharad Jones** | |

### Y SEFYLLFA BRESENNOL:

Mae **Uned Cyfeirio Disgyblion Ceredigion** ar gyfer disgyblion ag anghenion cymdeithasol, emosiynol ac ymddygiadol. Mae gan y mwyafrif o'r disgyblion anghenion addysgol arbennig. Mae gan bob disgybl naill ai ddatganiad o anghenion addysgol arbennig neu 'gytundeb gweithredu gan yr ysgol a mwy' mewn darpariaeth adnoddau arbenigol.

Mae Uned Cyfeirio Disgyblion Ceredigion wedi ei chofrestru gyda Llywodraeth Cymru fel uned cyfeirio disgyblion 'portffolio'. Mae'r Uned Cyfeirio Disgyblion wedi ei lleoli ar draws dau safle, sef Canolfan yr Eos yn Aberystwyth a Chanolfan Aeron yn Aberaeron.

Mae un bwrdd rheoli yn goruchwylio'r Uned Cyfeirio Disgyblion sydd â strwythur rheolwyr llinell integredig. Mae oddeutu ugain o ddisgyblion yn derbyn addysg amser llawn neu ran-amser yn yr Uned Cyfeirio Disgyblion. Mae'r Uned Cyfeirio Disgyblion hefyd yn rhoi cymorth i fentoriaid sy'n darparu gwasanaeth allgymorth ar gyfer disgyblion prif ffrwd yng Ngheredigion. Mae'r Uned Cyfeirio Disgyblion yn darparu gwasanaeth cymorth a chyngor ar agweddau penodol ar gymorth ymddygiad cadarnhaol i ysgolion o fewn yr awdurdod.

Nod yr Uned Cyfeirio Disgyblion yw galluogi pob disgybl i ddychwelyd at addysg brif ffrwd a/neu addysg bellach, hyfforddiant neu gyflogaeth. Mae pob disgybl yn cael addysg amser llawn, naill ai yn yr Uned Cyfeirio Disgyblion neu drwy drefniadau ar y cyd ag ysgol brif ffrwd, coleg, darparwr hyfforddiant neu gyflogaeth.

Cafodd Uned Cyfeirio Disgyblion Ceredigion arolygiad ESTYN yn ddiweddar. Barnwyd fel a ganlyn ar gyfer pob maes arolygu:

| Maes Arolygu | Barn |
|---|---|
| Safonau | Da |
| Lles ac agweddau at ddysgu | Da |
| Profiad addysgu a dysgu | Da |
| Gofal, cymorth ac arweiniad | Da |
| Arweinyddiaeth a rheolaeth | Da |

Gwnaeth ESTYN rai datganiadau mewn perthynas ag arfer da:

> "Yn ystod eu hamser yn yr uned cyfeirio disgyblion (UCD), mae llawer o ddisgyblion yn gwneud cynnydd cryf yn eu medrau cymdeithasol, emosiynol, ymddygiadol ac yn eu gallu i gydweithio ag oedolion a chymheiriaid"
>
> "Mae rhan fwyaf y disgyblion yn arddangos balchder ac yn adrodd yn huawdl am y profiadau dysgu maent yn eu cael a sut mae'r awyrgylch ddysgu yn cael effaith cadarnhaol arnynt ac ar eu hunanhyder**.**"
>
> "Mae'r rhan fwyaf yn datblygu dycnwch a medrau cymdeithasol gwerthfawr. O ganlyniad, mae lleiafrif y disgyblion yn dychwelyd yn ôl i'r prif lif yn llwyddiannus. Yn ogystal, mae'r gweddill yn llwyddo i gadw eu lle yn yr UCD, yn ennill cymwysterau addas ac yna'n symud ymlaen i addysg bellach, hyfforddiant neu waith. Mae hyn yn nodwedd gref."

Gellir gweld y ddolen i'r adroddiad llawn yn **Atodiad A**.

Argymhellodd ESTYN y dylai'r Uned Cyfeirio Disgyblion wella ar y canlynol:

- A1 Gwella safonau disgyblion, yn enwedig eu medrau ysgrifennu estynedig, uwch fedrau darllen a medrau technoleg gwybodaeth a chyfathrebu (TGCh)
- A2 Gwella ansawdd yr addysgu drwy sicrhau bod yr arferion gorau yn cael eu rhannu ar draws y tri safle
- A3 Cryfhau'r cynllunio ar gyfer datblygu'r medrau gan sicrhau cyfleoedd cynyddol i ddisgyblion ddatblygu eu medrau llythrennedd, rhif a TGCh a rhoi mwy o sylw ar gyfer datblygu'r disgyblion mwyaf abl
- A4 Gwella trylwyredd ac effeithiolrwydd y prosesau gwella ansawdd er mwyn cryfhau'r ddarpariaeth a chodi safonau

Yn wyneb yr argymhellion uchod, mae'r Uned Cyfeirio Disgyblion wedi nodi ffyrdd o wneud gwelliannau graddol dros y blynyddoedd nesaf. Yn ystod 2020-21, mae'r Uned Cyfeirio Disgyblion wedi blaenoriaethu'r broses sicrhau ansawdd (gan gynnwys olrhain), ymgysylltu â TGCh, ac yn dilyn Covid-19, llesiant dysgwyr. O fis Medi 2021-22, bydd yr ysgol yn parhau i weithio trwy'r argymhellion ac yn canolbwyntio ar rannu arfer effeithiol ar draws unedau ac ennyn diddordeb dysgwyr mewn llenyddiaeth ac ysgrifennu. At hynny, bydd yr ysgol yn gweithio tuag at weithredu'n effeithiol y Cwricwlwm newydd i Gymru a'r Rhaglen Trawsnewid Anghenion Dysgu Ychwanegol newydd.

**CEFNDIR:**

Mae'r **Gwasanaeth Cymorth ac Atal** yn cynnwys timau amlddisgyblaethol. Nod cyffredinol y gwasanaeth yw darparu dulliau dan arweiniad plant a phobl ifanc er mwyn grymuso plant a phobl ifanc i gyflawni, i ddatblygu'n bersonol, yn emosiynol, yn gymdeithasol, a bod y gorau y gallant fod. Mae Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn yn sail i waith y gwasanaeth. Mae ein timau yn darparu cymorth cyffredinol ac â ffocws i blant a phobl ifanc ac yn cynnwys:

- **Gwaith Ieuenctid ac Ymgysylltu;**
  gwaith ieuenctid yn yr ysgol, dilyniant addysg, dysgu achrededig a chyfranogiad
- **Cymorth a Chyrhaeddiad;**
  pontio cyn/ôl-16, cymorth meithrin, llesiant emosiynol, mentora ac allgymorth
- **Gwaith Ieuenctid Cymunedol ac Atal;**
  cymorth 16-24, canolfannau/clybiau ieuenctid, allgymorth cymunedol ac atal wedi ei dargedu

**Cymorth ac Atal**
**Gwaith Ieuenctid ac Ymgysylltu**



Nod gwaith ieuenctid yw galluogi pobl ifanc i ddatblygu'n gyfannol, gan weithio gyda nhw i hwyluso eu datblygiad personol, cymdeithasol ac addysgol er mwyn iddynt allu datblygu eu llais, eu dylanwad a'u lle mewn cymdeithas a chyrraedd eu potensial llawn *(Safonau Galwedigaethol Cenedlaethol).*

Mae Strategaeth Gwaith Ieuenctid Cymru yn amlinellu'r pum nod canlynol i wireddu ei weledigaeth:
- Mae pobl ifanc yn ffynnu
- Mae gwaith ieuenctid yn hygyrch ac yn gynhwysol
- Mae gweithwyr ieuenctid proffesiynol sy'n wirfoddol neu'n gweithio am dâl yn cael eu cefnogi i wella eu hymarfer drwy gydol eu gyrfa
- Mae gwaith ieuenctid yn cael ei werthfawrogi a'i ddeall
- Model cynaliadwy ar gyfer gwaith ieuenctid

**Dolen i'r Strategaeth** - Strategaeth Gwaith Ieuenctid Cymru

Fel Gwasanaeth Ieuenctid Awdurdod Lleol, ni yw'r lleiaf yng Nghymru ond mae gennym Weithwyr Ieuenctid ym mhob ysgol uwchradd sydd hefyd â chysylltiadau uniongyrchol â'r ysgolion cynradd sy'n eu bwydo.

Mae gennym Weithwyr Ieuenctid yn y gymuned hefyd sy'n darparu cymorth i bobl ifanc dros 18 oed, ynghyd â chanolfannau ieuenctid a rhaglen weithgareddau yn ystod y gwyliau. Yn 2019/20 cafodd y gwasanaeth gysylltiad â dros 4,500 o bobl ifanc yng Ngheredigion.

**Cymorth a Chyrhaeddiad**



Mae'r **Mentoriaid Sgiliau Plant a Phobl Ifanc** yn swyddi newydd o fewn Cymorth ac Atal a ddatblygwyd o'r rolau SEBSA blaenorol (Cynorthwywyr Cymorth Cymdeithasol, Emosiynol ac Ymddygiadol). Penodir mentoriaid i gefnogi plant a phobl ifanc sy'n arddangos ymddygiad heriol o ganlyniad i'w profiadau cymdeithasol ac emosiynol yn unol ag agenda profiadau niweidiol yn ystod plentyndod (Cymorth ar gyfer disgyblion sydd wedi cael profiadau niweidiol yn ystod plentyndod – ymateb y llywodraeth).

Mae'r mentoriaid yn darparu cymorth i blant a phobl ifanc sy'n mynychu ysgolion cynradd, ysgolion uwchradd a lleoliadau addysg eraill ar draws Ceredigion, h.y. y Cwricwlwm Amgen a'r Uned Cyfeirio Disgyblion. Maent yn ymgysylltu â phlant a phobl ifanc a allai fod ag anawsterau cymdeithasol, emosiynol ac ymddygiadol mewn lleoliadau un-i-un â ffocws ac mewn grwpiau bach. Y nod yw helpu plant a phobl ifanc i reoli eu hemosiynau, gan sianelu eu hegni yn gadarnhaol trwy ganolbwyntio ar gyrhaeddiad, yn addysgol ac yn bersonol, gan ddarparu dulliau adferol o ymdrin ag ymddygiadau nad ydynt yn addas mewn lleoliadau addysg.

Mae'r tîm yn darparu cymorth cymdeithasol, emosiynol ac ymgysylltu i oddeutu 80 o ddisgyblion ledled y sir. Roedd y Tîm Cymorth Ymddygiad hefyd yn rhan o Arolygiad diweddar Estyn o Uned Cyfeirio Disgyblion Ceredigion a gafodd sgôr gyffredinol DA, ynghyd ag adborth cadarnhaol yn adolygiad Estyn o waith Awdurdodau Lleol yn ystod Covid.

Yn hytrach na chanolbwyntio ar y plentyn neu'r person ifanc fel y broblem, mae mentoriaid yn hyrwyddo dull cyfannol sy'n seiliedig ar gryfderau i ddeall yn well y rhesymau dyfnach pam eu bod yn teimlo bod eu hamgylchedd presennol yn heriol a/neu'n arddangos ymddygiadau negyddol. Mae'r tîm mentora a chymorth yn cynnig ymyraethau wedi eu targedu ar gyfer plant a phobl ifanc, gan ganolbwyntio ar gymorth cymdeithasol ac emosiynol.

**Gwaith Ieuenctid Cymunedol ac Atal**



Mae gwaith ieuenctid yn broffesiwn ar wahân gyda'i fframwaith cymwysterau a'i Safonau Galwedigaethol Cenedlaethol ei hun. Mae Gwasanaethau Cymorth Ieuenctid yn gyfres o wasanaethau sydd â'u sail statudol yn Adran 123 o 'Ddeddf Dysgu a Sgiliau (2000)', sy'n nodi: gwasanaethau a fydd, ym marn y Cynulliad Cenedlaethol, yn annog, galluogi neu gynorthwyo pobl ifanc (yn uniongyrchol neu'n anuniongyrchol) i: (a) cymryd rhan yn effeithiol mewn addysg neu hyfforddiant, (b) manteisio ar gyfleoedd ar gyfer cyflogaeth, neu (c) cymryd rhan yn effeithiol ac yn gyfrifol ym mywyd eu cymunedau.

Mae ein tîm Gwaith Ieuenctid Cymunedol ac Atal yn cynnwys gweithwyr ieuenctid, swyddogion atal a dargyfeirio a staff cymorth, ac mae pob un ohonynt yn darparu ymyraethau cyffredinol ac wedi eu targedu yn unol â'r Safonau Galwedigaethol Cenedlaethol, 'Gwaith Ieuenctid yng Nghymru: Egwyddorion a Dibenion', a chyflwyniad Glasbrint Cyfiawnder Ieuenctid megis:

- Rhaglenni gweithgareddau strwythuredig
- Cymorth ôl-16 h.y. ymgysylltu â'r rhai sydd/sydd mewn perygl o Heb fod mewn Addysg, Cyflogaeth neu Hyfforddiant (NEET)
- Cymorth yn y ganolfan h.y. Clwb Ieuenctid/Canolfan Ieuenctid a darpariaethau galw heibio.
- Gwaith ieuenctid datgysylltiedig/symudol, allgymorth a dros dro
- Cefnogi gwaith atal cyfiawnder ieuenctid, gan gynnwys Datrysiadau/Gwyriadau y Tu Allan i'r Llys
- Hyrwyddo partneriaethau gyda'r sector ieuenctid gwirfoddol gan gynnwys rheoli Cytundebau Lefel Gwasanaeth

**Y SEFYLLFA BRESENNOL:**

**<u>Strwythur Staffio'r Gwasanaeth Cymorth ac Atal</u>**

| **Llwybrau Cymorth Lorraine Davies** | **Gwaith ieuenctid ac Ymgysylltu Lowri Evans** | **Cymorth a Chyrhaeddiad Dai Jones** | **Gwaith Ieuenctid Cymunedol ac Atal Gwen Evans** |
|---|---|---|---|
| | 1. 1 Rheolwr Tîm (GR12)<br>2. 1 Swyddog Cyfranogiad Plant a Phobl Ifanc 30 awr (GR9)<br>3. 7 Gweithiwr Ieuenctid Amser Llawn (GR9)<br>4. 1 Swyddog Hyfforddi ac Achredu 30 awr (GR8)<br>5. 1 Prentis Gwaith Ieuenctid Amser Llawn<br>6. 2 Weithiwr Cymorth Ieuenctid 3.5 awr (GR7) | 1. 1 Rheolwr Tîm (GR12)<br>2. 10 Mentor Sgiliau Plant a Phobl Ifanc Amser Llawn (GR8)<br>3. 2 Fentor Sgiliau Plant a Phobl Ifanc Amser Llawn (tymor ysgol) (GR8)<br>4. 1 Mentor Sgiliau Plant a Phobl Ifanc 30 awr (tymor ysgol) (GR8)<br>5. 1 Mentor Sgiliau Plant a Phobl Ifanc 22 awr (tymor ysgol) (GR8)<br>6. 1 Mentor Sgiliau Plant a Phobl Ifanc 14 awr (tymor ysgol) (GR8) | 1. 1 Rheolwr Tîm (GR12)<br>2. 2 Swyddog Atal a Dargyfeirio Amser Llawn (GR8)<br>3. 1 Swyddog Atal a Dargyfeirio 30 awr (GR8)<br>4. 1 Swyddog Atal a Dargyfeirio 14 awr (GR8) (salwch tymor hir)<br>5. 2 Weithiwr Ieuenctid Amser Llawn (GR8)<br>6. 1 Swyddog Adnoddau Amser Llawn (GR6)<br>7. 2 Weithiwr Prosiect Gweithgareddau 16 awr (GR7)<br>8. 1 Gweithiwr Cymorth Ieuenctid 7.5 awr (GR6)<br>9. 9 Gweithiwr Cymorth Prosiect Dros Dro (GR6) |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | Swyddi gwag:<br>1. 1 Gweithiwr Ieuenctid Amser Llawn (wedi derbyn hysbysiad gadael swydd - yn cael ei hysbysebu) | Swyddi gwag:<br>1. 1 Cydlynydd Cymorth a Chyrhaeddiad (GR10)<br>2. 1 Mentor Amser Llawn (cyfnod mamolaeth) | Swyddi gwag:<br>1. 1 Cydlynydd Atal Amser Llawn (GR9)<br>2. 1 Gweithiwr Gweithgareddau Strwythuredig 16 awr (GR7)<br>3. 1 Gweithiwr Cymorth Prosiect Dros Dro (GR6) |
| Newidiadau:<br>Honorariwm ar gyfer Cydlynydd Data a Gwybodaeth wedi dechrau | Newidiadau:<br>Swydd newydd i fynd trwy'r broses Gwerthuso Swyddi (Cydlynydd Gwaith Ieuenctid ac Ymgysylltu).<br><br>Swyddog Hyfforddi ac Achredu wedi ei adleoli'n ddiweddar i'r adran Dysgu Gydol Oes a Sgiliau dros dro. | Newidiadau:<br>Swydd Cydlynydd Cymorth a Chyrhaeddiad newydd fynd trwy'r broses Gwerthuso Swyddi a'r Grŵp Arweiniol yn llwyddiannus. Yn cael ei hysbysebu ar hyn o bryd.<br>Swydd dros gyfnod mamolaeth wedi cael ei hysbysebu am y trydydd tro. | Newidiadau:<br>Swydd newydd i fynd trwy'r broses Gwerthuso Swyddi (Cydlynydd Gwaith Ieuenctid Cymunedol ac Atal).<br><br>Swydd honorariwm (GR10 - 6 mis) wedi cael ei chylchredeg i gefnogi cyfleoedd Gwaith Ieuenctid Symudol a Gwledig |

**<u>Cymorth ac Atal - Y daith hyd yma</u>**

- Mae 600 o blant, pobl ifanc a'u teuluoedd wedi cael cymorth trwy 3,000 o alwadau llesiant.
- Mae 800 o becynnau llesiant wedi eu dosbarthu i bobl ifanc 16-24 oed.
- Mae dros 50,000 o bobl wedi ymgysylltu â'n tudalennau Cyfryngau Cymdeithasol.
- Ers mis Medi 2021, rydym wedi cefnogi 301 o unigolion mewn ysgolion uwchradd - 43 o ddisgyblion ar gyfartaledd ym mhob ysgol uwchradd gyda 3 aelod o staff dynodedig ar gyfartaledd ar bob safle.
- Mae 63 o blant wedi cael cymorth mewn ysgolion cynradd.
- Mae 64 o bobl ifanc 16-24 oed yn derbyn cymorth trwy ddarpariaeth allgymorth ac ymweliadau wedi eu trefnu.
- Mae cyfran uchel o atgyfeiriadau wedi bod yn gysylltiedig â phryderon llesiant meddyliol ac emosiynol (tua 70%), materion ymddygiad gydag anghenion dysgu ychwanegol sylfaenol a/neu bryder oherwydd bywyd ysgol/teulu (tua 70%).
- Mae'r cymorth mewn ysgolion cynradd i gyd wedi ei hanelu'n uniongyrchol at feithrin a chefnogi llesiant emosiynol, yn enwedig gyda grwpiau trosglwyddo.
- Rydym hefyd wedi bod yn cefnogi mwy o bobl ifanc gyda chamddefnyddio sylweddau ac ymddygiad troseddol posibl h.y. ymddygiad ar-lein, ymosod/trais.
- Mae ychydig dros 50% o achosion yn rhai y gwyddys amdanynt/yn agored i wasanaethau arbenigol/statudol.
- O'r 63 o ddisgyblion mewn ysgolion cynradd sy'n derbyn cymorth, gwyddys bod gan 19 ohonynt bryderon llesiant emosiynol, ac mae 14 o blant eraill wedi cael eu cyfeirio at CFAST oherwydd pryderon iechyd meddwl.
- Roedd 67 o bobl ifanc wedi cymryd rhan yn y rhaglen tair wythnos wedi ei thargedu dros yr haf yn 2020. Eleni rydym yn disgwyl i dros 100 o bobl ifanc gael mynediad at weithgareddau a chymorth strwythuredig.

- Mynychodd 60 o bobl lansiad swyddogol prosiect cydweithredol Arad Goch/Gwasanaeth Ieuenctid gan dynnu sylw at y thema digartrefedd ymhlith pobl ifanc.
- Cafodd 27 o staff eu hadleoli i gefnogi gwasanaethau critigol ac roedd llawer o staff wedi helpu gyda'r parseli bwyd a galwadau llesiant i breswylwyr agored i niwed a'r rhai sy'n gwarchod, yn ychwanegol at eu swyddi bob dydd.
- Yn ein cyfarfod gwasanaeth cyfan cyntaf, ymatebodd 47 o staff i gwestiwn trwy arolwg Menti, "Pa tri gair sy'n disgrifio orau y gwaith rydych chi'n ei wneud", a 'heriol, gwerth chweil a chefnogol' oedd y tri ymateb mwyaf poblogaidd.
- Enillodd un o Weithwyr Ieuenctid Ceredigion y categori Gwaith Ieuenctid mewn Ysgolion yn y Gwobrau Addysgu Proffesiynol eleni.
- Cafodd Tîm Troseddau Ieuenctid Ceredigion gyllid fel rhan o'r prosiect Pathfinder sy'n cael ei arwain gan y Bwrdd Cyfiawnder Ieuenctid a'i weithredu ar y cyd â Phrifysgol Aberystwyth.
- Mae 10 aelod o staff newydd wedi dechrau gyda'r gwasanaeth gan gynnwys Prentis Gwaith Ieuenctid.
- Mae 10 aelod o staff wedi cael cymorth trwy'r panel Cymwysterau Corfforaethol i gael mynediad at gyfleoedd dysgu pellach/uwch h.y. 'Gwaith Ieuenctid Lefel 6' a 'Thystysgrif Ymarfer Effeithiol mewn Troseddau Ieuenctid'.
- Dim ond yn ddiweddar rydym wedi dechrau defnyddio'r system newydd Childview a'r gobaith yw y bydd yn cynyddu'r ffordd rydym yn defnyddio data, yn monitro ac yn mesur perfformiad ac yn cael effaith mewn perthynas â'r themâu allweddol ar gyfer atal.
- Ar hyn o bryd, mae ein dull adrodd wedi bod trwy MS Teams gyda meysydd gwasanaeth unigol, ffurflenni olrhain ac ati. Gyda'r timau newydd a ffurfiwyd byddwn mewn sefyllfa well wrth symud ymlaen ym mis Medi.

Darperir Astudiaethau Achos yn **Atodiad B**.

**CEFNDIR:**

Mae'r **Gwasanaeth Dysgu Gydol Oes a Sgiliau** yn sicrhau bod trigolion Ceredigion yn gallu cael mynediad at gwricwlwm dysgu gydol oes, galwedigaethol, cyfoethog ac eang, a chymorth cyflogadwyedd. Rydym yn sicrhau ein bod yn ateb eu hanghenion, gan gynnig modd iddynt gyflawni eu potensial llawn a sicrhau twf economaidd cynaliadwy a mwy gwydn i Geredigion.

Mae Dysgu Gydol Oes a Sgiliau yn rhan o'r Porth Cymorth Cynnar ac yn cynnwys y gwasanaethau canlynol: Hyfforddiant Ceredigion Training (HCT), y Cwricwlwm Amgen, Darpariaeth Alwedigaethol i Ysgolion, Dysgu Bro a'r Tîm Cymorth Cyflogaeth.

Mae **Hyfforddiant Ceredigion Training (HCT)** yn cynnig ystod eang o raglenni hyfforddi a chyrsiau i bobl Ceredigion, gan geisio gwella cyflogadwyedd dysgwyr unigol a'r

ddarpariaeth sgiliau i gyflogwyr yn y sir. Yn ogystal â gweithio'n agos gydag ysgolion wrth ddarparu cyrsiau galwedigaethol a chwricwlwm amgen, mae HCT yn cyflwyno rhaglenni Hyfforddeiaethau, Prentisiaethau a Dysgu Seiliedig ar Waith ar ran Llywodraeth Cymru, ar hyn o bryd trwy gytundebau wedi eu his-gontractio gydag ACT Ltd. Mae HCT hefyd yn darparu hyfforddiant ar sail fasnachol i'r gymuned ehangach ar draws meysydd galwedigaethol amrywiol. Mae HCT wedi bod yn chwarae rhan weithredol wrth ddarparu dysgu seiliedig ar waith yng Ngheredigion ers dros 30 mlynedd. Mae HCT yn cynnig ystod o gyrsiau galwedigaethol sy'n paratoi pobl ar gyfer y gweithle trwy ddarparu hyfforddiant sgiliau yn y pynciau canlynol:


**Weldio a Pheirianneg**


**Cynnal a Chadw Cerbydau**


**Gofal Plant**


**Trin Gwallt**


**Gweinyddu Busnes**


**Systemau Trydannol**


**Plymio**

**Gwaith Coed**

**Rhaglen ymgysylltu:** rhaglen ar gyfer pobl ifanc 16-18 oed nad ydynt yn gwybod eto pa yrfa i'w dilyn. Mae HCT yn cynnig rhaglen amrywiol i baratoi'r person ifanc ar gyfer cyflogaeth trwy ysgrifennu CV, chwilio am swyddi, a dysgu sgiliau hanfodol a chyflogadwyedd.

**Hyfforddeiaethau (Lefel 1):** pan fydd y person ifanc wedi dewis 'llwybr' yr hoffai ei ddilyn, bydd HCT yn gweithio gyda'r person ifanc i ddod o hyd i leoliad gwaith addas i'w alluogi i gwblhau cymhwyster Lefel 1, ac yn rhoi cymorth i gael swydd amser llawn.

**Prentisiaethau (Lefelau 2 a 3):** Gall HCT gynnig ystod eang o gyrsiau prentisiaeth alwedigaethol i'r rheini sydd mewn cyflogaeth ac am ennill cymhwyster sgiliau galwedigaethol.

Nod y **Cwricwlwm Amgen** yw sicrhau bod dysgwyr sy'n agored i niwed (Blynyddoedd 9-11) yn cael mynediad at gwricwlwm wedi ei deilwra i ateb eu hanghenion gydag ystod o gyrsiau gwahanol yn cael eu cynnig ar hyn o bryd, gan roi'r cyfle gorau iddynt gyflawni a chyrraedd eu potensial llawn.  Y nod yw datblygu eu sgiliau cymdeithasol, emosiynol ac ymddygiadol a gwella eu cyrhaeddiad a'u presenoldeb.

Ar hyn o bryd mae gennym ystod o ddarparwyr mewnol ac allanol sy'n cyflwyno amrywiaeth o gymwysterau achrededig lefel 1 a lefel 2. Yn ystod blwyddyn academaidd 2019/2020 roedd gennym 83 o ddysgwyr o bob un o'r saith ysgol uwchradd yng Ngheredigion a'r Uned Cyfeirio Disgyblion yn dilyn y Cwricwlwm Amgen.

Mae enghreifftiau o'r cyrsiau a ddarparwyd yn cynnwys:

- Rhagarweiniol Lefel 1 mewn Trafnidiaeth a Cherbydau
- Rhagarweiniol Lefel 1 mewn Astudiaethau Tir
- Rhagarweiniol Lefel 1 mewn Adeiladu
- Rhagarweiniol Lefel 1 mewn Lletygarwch a Thwristiaeth
- Rhagarweiniol Lefel 1 mewn Chwaraeon
- Rhagarweiniol Lefel 1 yn y Cyfryngau Digidol
- Rhagarweiniol Lefel 1 mewn Peirianneg
- Rhagarweiniol Lefel 1 mewn Celf a Dylunio

Mae HCT hefyd yn cynnig ystod eang o gymwysterau Lefel 2 (ar gyfer dysgwyr 14-16 oed) a Lefel 3 (ar gyfer dysgwyr ôl-16) mewn ysgolion uwchradd ar draws Ceredigion sy'n cynnwys:

- BTEC Tystysgrif Estynedig Lefel 2 mewn Gwaith Gof a Gwaith Metel
- BTEC Diploma Atodol Lefel 3 mewn Gwaith Gof a Gwaith Metel
- BTEC Tystysgrif Estynedig Lefel 2 mewn Technoleg Cerbydau
- City and Guilds Tystysgrif Lefel 2 mewn Gwasanaethau Gwallt

Dysgu Bro Ceredigion

Mae **Dysgu Bro** yn darparu cyfleoedd dysgu i bobl Ceredigion yn eu cymuned leol i'w hannog i ddatblygu diddordebau newydd, gweithio tuag at ennill cymhwyster neu wella eu sgiliau ar gyfer y gweithle.  Mae cyrsiau ar-lein, wyneb yn wyneb ac eDdysgu ar gael.

**Iechyd a Diogelwch**
Cymorth Cyntaf yn y gweithle – Cymorth cyntaf brys -
Cymorth cyntaf pediatreg – Diogelwch Bwyd – CSCS.

**Cyrsiau cyfrifiaduron**
Dechreuwyr – Microsoft Office – Office 365 – Google Suite – Photoshop – iPad – Cyfryngau Cymdeithasol – BTEC Cyfryngau Creadigol.

**Sgiliau Hanfodol**
Rhifedd – Cyfathrebu – Llythrennedd digidol.

**Busnes**
Sage One – Ysgrifennu adroddiadau – Llythrennedd busnes – Cymryd cofnodion – Rheoli amser – Hyfforddi a Mentora – Cyflwyniad I sgiliau goruchwylio – Sgiliau cyflwyno – Gwasanaeth cwsmeriaid – Rheoli gwrthdaro – Trwyddedau alcohol – Rhwystro gwerthiant dan oed – Gweithio fel Swyddog Diogelwch yn y Diwydiant Diogelwch Preifat.

Mae'r **Tîm Cymorth Cyflogaeth** yn cynnwys Gweithffyrdd+ (y di-waith hirdymor a'r di-waith byrdymor) a Chymunedau am Waith+, ac mae'n cynnig cymorth i ddinasyddion ledled y sir i ennill sgiliau, cymwysterau a chyflogaeth â thâl, gan gydnabod mai'r llwybr gorau allan o dlodi yw trwy gyflogaeth.

**Gweithffyrdd+** - prosiect i'r di-waith hirdymor, y di-waith byrdymor a'r rhai sy'n economaidd anweithgar. Mae'n brosiect a ariennir gan WEFO i bobl 25 oed neu'n hŷn nad ydynt mewn addysg, cyflogaeth neu hyfforddiant (NEET) ac sydd â rhwystrau cymhleth megis:
Cyflwr iechyd neu anabledd sy'n cyfyngu ar allu pobl i weithio
Cyfrifoldebau gofalu
Dim cymwysterau neu gymwysterau isel
Cyfrifoldebau gofal plant
Dod o gartref un oedolyn neu ddi-waith
Dod o grŵp Pobl Dduon a Lleiafrifoedd ac ati.

**Cymorth a ddarperir:**
Mae'r Tîm Gweithffyrdd+ yn cynnig cymorth un-i-un i gyfranogwyr gydag ysgrifennu CV, sgiliau cyfweld, gwneud cais am swyddi, chwilio am swyddi, cyfleoedd gwaith â thâl, hyfforddiant, cyfleoedd gwirfoddoli, cyllid ar gyfer costau teithio a threuliau eraill, Cyfarpar Diogelu Personol (PPE) ac ati.

**Cymunedau am Waith+** - prosiect a ariennir gan Lywodraeth Cymru ar gyfer unigolion **16 oed neu'n hŷn** sydd mewn perygl o fod mewn tlodi. Gall cyfranogwyr fod yn dioddef tlodi yn y gwaith, yn ddi-waith, yn byw ar yr isafswm cyflog, yn ei chael hi'n anodd i dalu treuliau misol sylfaenol, ar gontractau sero awr afreolaidd ac ati.

**Cymorth a ddarperir:**
Mae'r Tîm Cymunedau am Waith+ yn cynnig cymorth un-i-un i gyfranogwyr gydag ysgrifennu CV a chyfweliadau ffug, gwneud cais am swyddi, chwilio am waith, uwchsgilio ac ariannu amrywiaeth eang o hyfforddiant, cymorth gyda dechrau eich busnes eich hun, cyllid ar gyfer costau teithio a threuliau eraill, Cyfarpar Diogelu Personol (PPE) ac ati

**Y SEFYLLFA BRESENNOL:**

**Dysgu Gydol Oes a Sgiliau**

**<u>Strwythur Staffio Dysgu Gydol Oes a Sgiliau:</u>**

| Cyflogaeth a Hyfforddiant | Dysgu a Sgiliau Galwedigaethol |
|---|---|
| 1. 1 Rheolwr Tîm<br>2. 5 Mentor Gweithffyrdd+ Amser Llawn | 1. 1 Rheolwr Tîm<br>2. 1 Dirprwy Reolwr HCT |

| | |
|---|---|
| 3. 1 Cydlynydd Hyfforddiant a Chyhoeddusrwydd Gweithffyrdd+ Amser Llawn<br>4. 1 Swyddog Ansawdd a Pherfformiad Gweithffyrdd+ Amser Llawn<br>5. 1 Swyddog Cyswllt Cyflogaeth Gweithffyrdd+ Amser Llawn<br>6. 1 Swyddog Cyswllt Cyflogwyr/Lleoliad Gwaith Amser Llawn - Cymunedau am Waith+<br>7. 3 Mentor Cyflogaeth Cymunedol Amser Llawn - Cymunedau am Waith+<br>8. 1 Swyddog Cymorth Cyfranogwyr Amser Llawn | 3. 6 Chynghorydd Hyfforddiant Amser Llawn<br>4. 14 Cynghorydd Hyfforddiant Rhan-amser<br>5. 1 Swyddog Cymorth ar gyfer Dysgu Galwedigaethol Amser Llawn<br>6. 2 Swyddog Cymorth ar gyfer Dysgu Galwedigaethol Rhan-amser<br>7. 1 Rheolwr Addysg Gymunedol - Dysgu Bro<br>8. 1 Tiwtor Dysgu Cymunedol Amser Llawn<br>9. 2 Diwtor Dysgu Cymunedol Rhan-amser<br>10. 7 Tiwtor Dysgu Cymunedol Dros Dro<br>11. 1 Swyddog Cymorth Achredu Amser Llawn<br>12. 1 Swyddog Cymorth ar gyfer y Cwricwlwm Amgen a Phrofiad Gwaith Estynedig Amser Llawn<br>13. 1 Cydlynydd Ansawdd Cronfa Gymdeithasol Ewrop Amser Llawn |

- Strategaeth Dysgu Digidol Dysgu Gydol Oes a Sgiliau wedi ei datblygu gyda chymorth JISC i fodloni Fframwaith Digidol 2030 Llywodraeth Cymru.
- Buddion Cymunedol - presenoldeb parhaus yng ngrŵp rhanbarthol De-orllewin Cymru yn adolygu cynhwysiant a chydymffurfiaeth â gofynion buddion cymunedol mewn contractau fframwaith.
- Mae Canolfan HCT wedi bod ar agor i bob dysgwr ar gyfer addysgu wyneb yn wyneb ers mis Medi 2020, ac fe ail-agorodd ym mis Ebrill 2021 ar ôl yr ail gyfnod clo.
- Mae HCT wedi cwblhau ei Adroddiad Hunanwerthuso ar gyfer ACT sy'n cael ei is-gontractio ar gyfer ein rhaglenni Hyfforddeiaethau a Phrentisiaethau. Rydym yn adrodd yn erbyn fframwaith Estyn a chofnodir ein barnau isod. Mae'r rhain yn cael eu dilysu gan ACT fel rhan o'i gylch ansawdd parhaus.

| **Maes Arolygu** | **Barn** |
|---|---|
| Safonau | Da |
| Lles ac agweddau at ddysgu | Da |
| Profiad addysgu a dysgu: | Ardderchog |
| Gofal, cymorth ac arweiniad | Da |
| Arweinyddiaeth a rheolaeth | Ardderchog |

- Cofnodir ffigurau am y 3 blynedd diwethaf (Ionawr - Rhagfyr) isod sy'n dangos y niferoedd cyn y pandemig a'r niferoedd cyfredol hyd yma (y Cwricwlwm Amgen/Dysgwyr Ysgol/Hyfforddeiaethau/Prentisiaethau sydd i ddechrau ym mis Medi).

| 2019 | | 2020 | | 2021 (hyd at 10/08/21) | |
|---|---|---|---|---|---|
| Y Cwricwlwm Amgen/Ysgolion | 190 | Y Cwricwlwm Amgen/Ysgolion | 146 | Y Cwricwlwm Amgen/Ysgolion | 112 |
| Hyfforddeiaethau | 92 | Hyfforddeiaethau | 105 | Hyfforddeiaethau | 55 |
| Prentisiaethau | 136 | Prentisiaethau | 114 | Prentisiaethau | 84 |
| Cyfanswm | 418 | Cyfanswm | 365 | Cyfanswm | 251 |

- Dysgwyr y Cwricwlwm Amgen a enillodd gymhwyster cydnabyddedig Lefel 1/Lefel 2

| | |
|---|---|
| 2019 | 56 |
| 2020 | 50 |
| 2021 (hyd at 10/08/21) | 46 |

- Disgwylir i weithdai newydd sy'n cael eu datblygu gael eu cwblhau y mis hwn gyda'r hyblygrwydd i ddarparu hyfforddiant galwedigaethol o Gwrtnewydd yn bennaf trwy'r Cwricwlwm Amgen.
- Mae Dysgu Bro wedi cynnal dosbarthiadau Addysg Oedolion yn y Gymuned ar-lein gan ddefnyddio Zoom a Teams trwy eDdysgu. Maent wedi gallu defnyddio goruchwylio o bell i sicrhau y gall dysgwyr ennill eu cymwysterau, e.e. mewn Iaith Arwyddion Prydain, ECDL, Sgiliau Digidol a Sgiliau Hanfodol.
- Mae Dysgu Bro yn parhau i ddarparu cyrsiau ar gyfer prosiectau Sgiliau Bwyd Cymru a Chyswllt Ffermio, Cymorth Cyntaf Pediatreg (71 o warchodwr plant) a 61 sesiwn ar gyfer 569 o fynychwyr Tîm Dysgu a Datblygu CSC.
- Rydym hefyd wedi dechrau darparu Cymorth Cyntaf Pediatreg /Cymorth Cyntaf Brys a Chymorth Cyntaf yn y Gwaith i ysgolion a'r Gwasanaeth Ieuenctid.
- Nifer y dysgwyr sydd wedi dilyn cyrsiau Dysgu Bro dros y 3 blynedd diwethaf (Ionawr - Rhagfyr) (niferoedd cyn y pandemig a'r niferoedd cyfredol hyd yma).

| | 2019 | 2020 | 2021 |
|---|---|---|---|
| Nifer y dysgwyr sydd wedi dilyn cyrsiau Dysgu Bro | 609 | 862 | 252 (hyd at 10/08/21) |
| Nifer y busnesau a gefnogwyd trwy gyrsiau | 11 | 11 | 10 (hyd at 10/08/21) |
| Nifer y cyrsiau a gafodd eu rhedeg ar gyfer tîm Dysgu a Datblygu CSC | 9 cwrs a 29 sesiwn | 13 cwrs a 61 sesiwn | 6 chwrs a 12 sesiwn (hyd at 10/08/21) |

- Mae'r Tîm Cymorth Cyflogaeth wedi ailddechrau apwyntiadau wyneb yn wyneb gyda'r cyfranogwyr mwyaf agored i niwed sydd mewn perygl o ymddieithrio er mwyn sicrhau eu bod yn cael y cymorth llawn i ddychwelyd i'r gwaith.
- Mae gwirfoddoli/lleoliadau gwaith a chyfleoedd gwaith â thâl mewn amrywiaeth o swyddi wedi ailddechrau gan sicrhau bod yr holl weithdrefnau iechyd a diogelwch Covid yn cael eu dilyn.
- Mae nifer o gymwysterau wedi eu darparu gan gynnwys cyrsiau Hylendid Bwyd, Lletygarwch, HGV, Sgiliau Gwaith, Iechyd a Diogelwch mewn Adeiladu (CSCS), Swyddogion Diogelwch a chyrsiau Llif Gadwyn.

- Mae hysbysebu am y prosiectau yn parhau yn y wasg ac ar y radio. Mae nifer o astudiaethau achos wedi cael sylw yn y Cambrian News yn ddiweddar. Ar hyn o bryd mae'r tîm yn cynnal ymgyrch bostio ac yn anfon gwybodaeth at bob cyfeiriad preswyl yng Ngheredigion gan hyrwyddo pob prosiect cyflogadwyedd a'r cymorth y gallant ei gynnig.
- Nifer y cyfranogwyr sydd wedi cael cymorth cyflogaeth dros y 3 blynedd diwethaf (Ebrill - Mawrth). Y niferoedd cyn y pandemig a'r niferoedd cyfredol hyd yma.

| | Ebrill 19 - Mawrth 20 | Ebrill 20 - Mawrth 21 | Ebrill 21 - 10/08/21 |
|---|---|---|---|
| Nifer y cyfranogwyr sydd wedi cael eu cyflogi | 56 | 51 | 61 |
| Nifer y Dinasyddion sydd wedi cymryd rhan mewn prosiectau | 188 | 172 | 98 |
| Nifer y cyfranogwyr sydd wedi ennill cymwysterau | 94 | 56 | 31 |

**A gwblhawyd Asesiad Effaith Integredig? Os na, nodwch pam - Gwybodaeth yn unig**

| | |
|---|---|
| **LLESIANT CENEDLAETHAU'R DYFODOL:** | ***Crynodeb:***<br>**Hirdymor:** Cael cydbwysedd rhwng anghenion tymor byr a chynllunio hirdymor ar gyfer y dyfodol<br>**Integreiddio:** Effeithio'n gadarnhaol ar bobl, yr economi, yr amgylchedd a'r diwylliant a cheisio dod â budd i bob un ohonynt<br>**Cydweithio:** Cydweithio â phartneriaid eraill i ddarparu gwasanaethau<br>**Cynnwys:** Cynnwys y rhai hynny sydd â diddordeb a |

cheisio eu
safbwyntiau
**Atal:** Defnyddio
adnoddau i atal
problemau rhag
codi neu waethygu

**ARGYMHELLIAD(ARGYMHELLION): Gwybodaeth yn unig**

**RHESYMAU DROS YR ARGYMHELLIAD (ARGYMHELLION): Gwybodaeth yn unig**

**Enw Cyswllt: Elen James**
**Swydd: Swyddog Arweiniol Corfforaethol Porth Cymorth Cynnar**

| | |
|---|---|
| **Dyddiad yr Adroddiad:** | 01/08/2021 |
| **Acronymau:** | Porth Cymorth Cynnar<br><br>Uned Cyfeirio Disgyblion (UCD)<br><br>Argymhellion (A1, A2 ac ati.)<br><br>HCT - Hyfforddiant Ceredigion Training<br><br>LLS **-** Dysgu Gydol Oes a Sgiliau |

## ATODIAD

## ATODIAD A

Y ddolen i adroddiad ESTYN - https://www.estyn.gov.wales/system/files/2020-08/Ceredigion%2520Pupil%2520Referral%2520Unit%2520en.pdf

## ATODIAD B.

### Gwasanaeth Cymorth ac Atal

### Astudiaeth Achos 1 - Ymyrraeth Gynnar ac Atal Llesiant Meddyliol mewn Ysgolion

Ymunwyd â sefydliad gwirfoddol cwnsela lleol a'r Gwasanaeth Ysgolion i gynnig rhaglen seico-addysgol gynhwysfawr 6 wythnos ar gyfer pobl ifanc yn canolbwyntio ar ymyrraeth gynnar a dulliau damcaniaethol a seiliedig ar dystiolaeth a gymhwysir yn strategol y profwyd eu bod yn hybu llesiant ac yn atal problemau iechyd meddwl.

**Nodau'r Rhaglen:**

- Datblygu diwylliant o iechyd meddwl a llesiant cadarnhaol ar draws yr ysgol gyfan
- Cynyddu ymwybyddiaeth a lleihau'r stigma a gysylltir ag iechyd meddwl a llesiant
- Uwchsgilio a grymuso pobl ifanc i reoli eu hiechyd meddwl a'u llesiant eu hunain
- Atal materion iechyd meddwl a llesiant trwy ymyrraeth seico-addysgol gynnar

**Roedd pobl ifanc yn gallu:**

- Ennill sgiliau gydol oes amhrisiadwy i reoli eu hiechyd meddwl a'u llesiant
- Rheoli digwyddiadau bywyd heriol yn fwy effeithiol gan gyfyngu ar yr amharu ar addysg, presenoldeb ac ymddygiad.
- Ennill sgiliau i helpu i ddatblygu meddylfryd mwy cadarnhaol.
- Teimlo'n fwy hyderus ynddynt eu hunain, yn eu galluoedd, ac wedi gwella hunan-barch.

**Canlyniadau:**

Dechreuodd 17 o ddisgyblion o ddwy ysgol uwchradd y cwrs ar wythnos 1 a chwblhau'r cyn-raglen.

Dywedodd 75% o'r disgyblion ar ôl mynychu ein rhaglen fod "llawer" neu "rai" sgiliau ganddynt i reoli eu hiechyd meddwl a'u llesiant.

*'Rwy'n credu ei fod e wedi rhoi mwy o dechnegau y galla i eu defnyddio er mwyn gwella fy iechyd meddwl.' (person ifanc)*

Rydym yn bwriadu parhau â'r cynllun peilot o fewn Amgylchedd Dysgu Seiliedig ar Waith.

### Astudiaeth Achos 2 – Digartrefedd ymhlith Pobl Ifanc

Er mwyn hyrwyddo Diwrnod Digartrefedd y Byd, cychwynnodd pobl ifanc o Glwb Ieuenctid Penparcau, sy'n ffurfio Grŵp Llysgenhadon Cymunedol Aberystwyth, ar brosiect newydd mewn partneriaeth ag Arad Goch i greu ffilm fer mewn ymgais i addysgu a chodi ymwybyddiaeth o ddigartrefedd ymhlith pobl ifanc. Ariannwyd y prosiect gan Gynllun Grant dan Arweiniad Pobl Ifanc Cymdeithas Mudiadau Gwirfoddol Ceredigion (CAVO) a'i gyd-ddarparu gan weithwyr ieuenctid a phartneriaid.

Ymchwiliodd y grŵp i'r pwnc, ei drafod gyda sefydliadau lleol, creu sgript, ffilmio golygfeydd yn Aberystwyth a'r cyffiniau a golygu a gwerthuso pob cam o'r prosiect. Cynhyrchwyd y ffilm gan bobl ifanc, ar gyfer pobl ifanc, gyda chymorth a dan oruchwyliaeth y Cwmni Theatr lleol, Arad Goch. Cefnogwyd y prosiect hefyd gan ddisgyblion drama o Ysgol Gyfun Gymunedol Penweddig a gymerodd ran yn y cynhyrchiad. Mae'r ffilm fer yn dilyn taith emosiynol person ifanc sy'n gweld ei deulu'n chwalu a wynebu bod yn ddigartref cyn cael cymorth gan sefydliad lleol. https://aradgoch.cymru/stori-alex/?lang=en




**<u>Astudiaeth Achos 3 - Gwaith Ieuenctid Digidol (yn ystod y cyfnod clo)</u>**

- Ymgysylltodd rhaglen gweithgareddau rhithiol y gwasanaeth ieuenctid â chyfanswm o 74 o bobl ifanc mewn sesiynau wythnosol oedd yn cynnwys meysydd thematig megis ffyrdd o fyw iach, addysg gorfforol a llesiant. Roedd y gweithgareddau yn cynnwys coginio, ioga, cwisiau a gemau, ac ati.
- Rhannwyd themâu dyddiol ar ein tudalennau cyfryngau cymdeithasol ar gyfer hyrwyddo ffyrdd o fyw iach, gweithgareddau corfforol a llesiant. Penawdau'r thema oedd coginio, meddwlgarwch, posau, ymarfer corff a chelf a chrefft. Ar gyfartaledd cafodd y themâu dyddiol eu gweld tua 1,000 o weithiau fesul postiad ar ein llwyfannau cyfryngau cymdeithasol.
- Rydym yn gweithio'n agos gyda Cheredigion Actif a Phobl Ifanc Actif (Insport/Chwaraeon Anabl Cymru) i hyrwyddo mentrau gweithgareddau cynhwysol i dargedu plant a phobl ifanc trwy gydol y cyfnod clo.
- Cofrestrodd gyfanswm o 66 o bobl ifanc ar gyfer ein gweithgareddau rhithiol gyda chaniatâd rhieni yn ei le. Mae cyfyngiadau Covid-19 wedi cael effaith ar gyrhaeddiad a chysylltiadau'r gwasanaeth, ond mae'r elfen ddigidol wedi ein galluogi i gynnal a chynyddu ein hymgysylltiad â phlant a phobl ifanc.
- Llwyddodd y Cyngor Ieuenctid a'n Fforwm Pobl Ifanc 'Dewis' i barhau i gwrdd trwy gydol y cyfnod clo trwy Teams a Zoom. Gweithiodd grŵp Dewis hefyd mewn partneriaeth â CAVO a busnes lleol i ddosbarthu'r grant dan arweiniad pob ifanc a'r fwrsariaeth pobl ifanc i'r plant a'r bobl ifanc hynny a wnaeth gais amdano.
- Mae gan bob un o'n hymarferwyr Cymorth ac Atal fynediad i'w gliniadur a'u ffôn clyfar eu hunain - sydd wedi gwella a chryfhau ein hymyraethau a chymorth rhithiol i bobl ifanc.

**Astudiaeth Achos 4 - Cymorth Allgymorth a Throsglwyddo Ôl-16**

Rhwng Ebrill a Medi derbyniwyd cyfanswm o 43 o atgyfeiriadau ar gyfer pobl ifanc 16-24 oed nad ydynt mewn addysg, cyflogaeth neu hyfforddiant (NEET) ac a gafodd eu sgrinio fel rhai nad ydynt yn barod ar gyfer addysg, cyflogaeth neu hyfforddiant trwy ein tîm cyflogaeth gymunedol.

Ers mis Hydref rydym wedi derbyn 71 o atgyfeiriadau pellach ar gyfer y rhai sydd angen cymorth. Mae ein darpariaeth yn parhau i fod yn gyswllt wythnosol rheolaidd trwy alwadau ffôn/cymorth trwy Teams gan sicrhau bod y bobl ifanc sydd fwyaf agored i niwed yn cael cymorth gyda'u hiechyd a'u llesiant emosiynol a meddyliol.

Cynhaliwyd ymweliadau llesiant /stepen drws hanfodol gan gynnal asesiad risg priodol i gefnogi pobl ifanc sydd mewn risg uchel ac sydd angen cymorth pellach.

Bu'n hynod heriol i geisio cynnal perthnasoedd cadarnhaol gyda'r garfan hon heb yr elfen wyneb yn wyneb. Fodd bynnag, mae llawer wedi bod yn ymgysylltu'n dda mewn grwpiau rhithiol – a cheir angen clir inni ddarparu cymorth cyfunol a chadarn wrth inni ddatblygu trwy ein prosesau yn y cam addasu.

**Astudiaeth Achos 5 - Cyfranogi**

Yn ddiweddar mae'r panel 'DEWIS' i bobl ifanc wedi ei ailsefydlu fel panel rhithiol ac mae wedi llwyddo i gefnogi'r gymdeithas mudiadau gwirfoddol leol (CAVO) i ddosbarthu'r grant dan arweiniad pob ifanc - sy'n brosiect dan arweiniad pobl ifanc sy'n gwobrwyo busnesau, sefydliadau ac elusennau lleol i hyrwyddo prosiectau plant a phobl ifanc. Rhoddwyd grantiau ar gyfer 6 chais i gefnogi prosiectau yn ymwneud â hyrwyddo gweithgareddau iechyd meddwl, prosiectau llesiant a chyrsiau hyfforddi.

**Astudiaeth Achos 6 - Gwaith Ieuenctid Symudol**


Ym mis Gorffennaf 2020 dyfarnwyd £99,000 i Wasanaeth Ieuenctid Ceredigion gan Gronfa Gymunedol y Loteri Genedlaethol i ddatblygu darpariaeth symudol ar gyfer plant a phobl ifanc.

"nod y prosiect hwn yw sefydlu canolfan ieuenctid symudol, gan ehangu ein darpariaeth ieuenctid i ardaloedd gwledig anghysbell yng Ngheredigion, gan gynnig rhaglenni pwrpasol a darpariaeth hyblyg i ymgysylltu â phobl ifanc, yn enwedig y rhai sydd dan anfantais, yn agored i niwed ac sydd angen cymorth.

Bydd y prosiect yn darparu amrywiaeth eang o weithgareddau a chyfleoedd i drigolion gael cyngor a chymorth trwy gyfrwng gweithdai, sesiynau blasu, galw heibio am wybodaeth a chlybiau amrywiol a fydd yn ceisio hyrwyddo addysg, iechyd a llesiant.

Mae plant a phobl ifanc wedi cymryd yr awenau wrth ddatblygu'r prosiect hwn, ac mae dros 500 o bobl ifanc wedi cael eu hymgynghori â nhw dros gyfnod o dair blynedd. Byddant yn parhau i yrru'r prosiect yn ei flaen pan fyddwn yn agor y gwasanaeth yn swyddogol, gobeithio, ym mis Medi/Hydref 2021."





**Astudiaeth Achos 7 - Profiad person ifanc o gael cymorth yn ystod Covid-19**

"Pan ddechreuodd y cyfnod clo cyntaf doedd dim cymorth ar gael ac roeddwn i'n ei chael hi'n anodd iawn ymdopi.  Erbyn y cyfnod atal byr ym mis Hydref roeddwn i'n cael llawer o gymorth, gan gynnwys gweithiwr ieuenctid.  Mae hyn wedi gwneud gwahaniaeth enfawr i'm profiadau yn ystod y cyfnod clo.  Yn ystod y cyfnod clo cyntaf, roedd hi'n hawdd iawn dechrau digalonni a dirywio'n gyflym.  Gyda chymorth y gweithiwr ieuenctid mae fy nghyfnod clo wedi bod yn wahanol iawn.

Mae cael gweithiwr ieuenctid wedi golygu bod cyfle i gael galwad ffôn neu neges destun pryd bynnag y mae angen un arna i.  Dwi wedi cael cynnig mynd am dro os oes angen a chyfle i fynd i'r ysgol sawl diwrnod yr wythnos yn ystod y cyfnod clo hwn.  Mae cael yr adnoddau hyn wrth law yn golygu fy mod i wedi gallu ymdopi'n emosiynol yn ystod y cyfnod clo hwn a gallu gwneud fy ngwaith ysgol sy'n golygu fy mod yn gallu ymdopi'n well yn emosiynol.

Er bod y cyfleoedd hyn wedi cael effaith fawr arna i fel unigolyn yn ystod y cyfnod clo, mae hefyd wedi cael effaith ar weddill fy nheulu sy'n byw gyda mi.  Trwy allu cael cymorth ar gyfer fy llesiant meddyliol, mae fy nheulu wedi dioddef llawer llai ac mae'r meysydd lle mae angen cymorth arnyn nhw wedi cael eu nodi a'u datrys yn ystod y cyfnod clo.

Erbyn hyn dwi'n cael cymorth cyson yn ystod y cyfnod clo.  Rwy'n gallu bod yn iach yn emosiynol sy'n golygu fy mod i'n gallu gofalu amdana fy hun yn fwy effeithiol.  Trwy orfodi fy hun i ddilyn technegau myfyriol yn ystod yr wythnos gyda gweithiwr cymorth, a gorfod cysylltu sawl gwaith yr wythnos gyda gweithiwr ieuenctid, dwi'n gallu rheoli fy hun yn well ac ymdopi mewn ffordd llawer mwy iach.  Mae'n golygu y galla i ddechrau bod yn gyfrifol am fy llesiant fy hun yn ara deg gyda chymorth a gallu teimlo'n dda yn ystod y cyfnod clo.

Mantais arall o gael gweithiwr ieuenctid yn ystod y cyfnod clo yw gallu trafod cyhoeddiadau'r llywodraeth gyda rhywun oherwydd mae'r rhan yn sioc weithiau ac yn gwneud i mi deimlo'n annifyr.  Y rhan orau o gael gweithiwr ieuenctid yn ystod y cyfnod clo yw cael rhywun i decstio neu ffonio unrhyw bryd, am unrhyw beth, ond hefyd i gael rhywun sy'n cadw llygad arna i oherwydd weithiau mae codi'r ffôn yn fwy anodd nag y byddech yn

ei feddwl. Mae hyn yn rhoi cyfle i mi godi pryderon heb orfod gofyn yn benodol, rhywbeth nad yw'n hawdd i mi ei wneud bob tro.

At ei gilydd, rwy'n teimlo bod y cymorth sydd wedi cael ei gynnig i mi yn ystod y cyfnod clo wedi cael effaith fawr arna ac wedi golygu fy mod yn gallu parhau i weithio'n galed tuag at gyflawni'r hyn dwi am ei wneud heb ddirywio a digalonni."

**ATODIAD C**

Mae Dysgu Gydol Oes a Sgiliau wedi datblygu llyfryn newydd sy'n tynnu sylw at gyrsiau i ddysgwyr a chyfleoedd uwchsgilio ar gyfer busnesau. Mae hyn yn rhoi gwybodaeth ariannol i ddysgwyr a chyflogwyr am unrhyw grantiau sydd ar gael iddynt ar hyn o bryd. Gweler y ddolen isod.

LLS Booklet July21.pdf

Yn ddiweddar, mae'r Tîm Cymorth Cyflogaeth wedi rhyddhau nifer o ddatganiadau i'r wasg a rhestrir y dolenni isod. Mae hefyd wedi cynnal nifer o gyfweliadau teledu a radio gan dynnu sylw at y gwaith da y mae'n ei wneud i ddinasyddion Ceredigion trwy amryw o brosiectau cyflogaeth.

http://www.ceredigion.gov.uk/resident/news/communities-for-workplus-participant-secures-job-as-a-hgv-driver/

http://www.ceredigion.gov.uk/resident/news/resident-supported-through-uncertain-times-to-secure-new-job/

http://www.ceredigion.gov.uk/resident/news/communities-for-work-plus-helped-resident-to-get-back-into-work/

http://www.ceredigion.gov.uk/resident/news/ceredigion-residents-supported-back-to-work/

http://www.ceredigion.gov.uk/resident/news/communities-for-workplus-support-ceredigion-resident-to-develop-professionally/

Eitem Agenda 5

| **Cyngor Sir CEREDIGION County Council** | |
|---|---|
| **ADRODDIAD I'R:** | Cabinet |
| **DYDDIAD:** | Medi 2021 |
| **LLEOLIAD:** | Rhithiol |
| **TEITL:** | Strategaeth Anghenion Dysgu Ychwanegol |
| **PWRPAS YR ADRODDIAD:** | Diweddaru Cabinet o Strategaeth Anghenion Dysgu Ychwanegol Ceredigion |
| **RHESWM PAM BOD Y PWYLLGOR WEDI GOFYN AM Y WYBODAETH:** | Diweddariad ar Anghenion Dysgu Ychwanegol |

**CEFNDIR:**

Cyhoeddwyd Cod Anghenion Dysgu Ychwanegol Newydd Cymru ym mis Mawrth 2021 gyda'r bwriad o weithredu'r system newydd o fis Medi 2021. Fodd bynnag, mae'r rhaglen weithredu wedi'i diwygio oherwydd effaith y pandemig.
Mae Deddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg (2018) Cymru yn rhan o'r rhaglen diwygio addysg ehangach yng Nghymru. Mae hyn yn darparu fframwaith statudol newydd ar gyfer cefnogi plant ag anghenion dysgu ychwanegol (ADY), ac mae Cod gorfodol yn cyd-fynd ag ef sy'n sicrhau bod gan y system newydd gyfres o baramedrau clir y gellir eu gorfodi'n gyfreithiol lle mae'n rhaid i ysgolion, awdurdodau lleol a phartneriaid eraill sy'n gyfrifol am ddarparu gwasanaethau i blant a phobl ifanc ag ADY weithredu.
Y Cod Anghenion Dysgu Ychwanegol https://gov.wales/additional-learning-needs-code

Nod y dull newydd, fel y nodir yn y Cod, yw:
'Cefnogi'r gwaith o greu system addysg gwbl gynhwysol lle rhoddir cyfle i bob dysgwr lwyddo a chael mynediad i addysg sy'n diwallu eu hanghenion ac sy'n eu galluogi i gymryd rhan, elwa ar ddysgu a'i fwynhau.'

Mae'r fframwaith statudol newydd yn seiliedig ar y 5 egwyddor ganlynol:
a) **Dull sy'n seiliedig ar hawliau** lle mae barn, dymuniadau a theimladau'r plentyn, rhieni/gofalwyr neu berson ifanc y plentyn yn ganolog i gynllunio a darparu cymorth.
b) **Nodi, ymyrryd yn gynnar a chynllunio pontio effeithiol.**
c) **Cydweithio** lle mae pawb sy'n gysylltiedig yn cydweithio er lles gorau'r plentyn neu'r person ifanc
d) **Addysg gynhwysol** sy'n cefnogi cyfranogiad yn llawn mewn addysg brif ffrwd, lle bynnag y bo'n ymarferol ac ymagwedd lleoliad cyfan i ddiwallu anghenion dysgwyr ag ADY.
e) **System ddwyieithog** lle cymerir pob cam rhesymol i ddarparu ALP yn Gymraeg i blant a phobl ifanc sydd angen cymorth drwy gyfrwng y Gymraeg.

| |
|---|
| **Y SEFYLLFA AR HYN O BRYD:** |

Oherwydd effaith sylweddol y pandemig, adolygwyd y cynllun gweithredu ADY ymhellach gan y Gweinidog ym mis Gorffennaf 2021 fel a ganlyn:

O’r 1af o Fedi 2021, bydd y system ADY yn dechrau ar gyfer plant o oedran ysgol gorfodol ac is yn unig:

- sydd newydd eu nodi fel rhai sydd ag angen dysgu ychwanegol (ADY) yn dilyn prosesau Cod ADY, waeth beth fo'u lleoliad - gan gynnwys y rhai a allai fynychu lleoliad EOTAS, ysgol annibynnol neu sy'n cael eu haddysgu gartref yn ddewisol;
- yn cael eu cadw;

**O 1af o Ionawr 2022, bydd y system ADY yn dechrau ar gyfer plant o oedran ysgol gorfodol ac yn is sydd:**

- yn mynychu ysgolion a gynhelir (gan gynnwys Unedau cyfeirio) ym Mlynyddoedd Meithrin 1 a 2 a Blwyddyn 1, Blwyddyn 3, Blwyddyn 5, Blwyddyn 7 a Blwyddyn 10) sydd â darpariaeth addysgol arbennig drwy weithredu yn y blynyddoedd cynnar / gweithredu blynyddoedd cynnar a mwy neu weithredu gan yr ysgol GY /gweithredu gan yr ysgol â mwy GYM;

- Bydd plant sydd â darpariaeth addysgol arbennig ar hyn o bryd drwy ddatganiad neu wrthi'n cael asesiad AAA yn aros; ac ni fydd y rhai sydd dros oedran ysgol gorfodol yn cael eu cynnwys yn y flwyddyn gyntaf o weithredu.

- Bydd symudiad plant i'r system newydd yn cael ei wasgaru dros y flwyddyn.

- Ni fydd rhieni'n gallu gofyn am symud i'r system newydd tan 1 Ionawr 2022.

Mae Awdurdodau Lleol yn dal i aros am y canllawiau gweithredu tair blynedd terfynol, a disgwylir iddynt gael eu cyhoeddi yn gynnar yn nhymor yr Hydref. Mae'r canllawiau gohiriedig hyn yn effeithio ar y sicrwydd y gallwn ei ddarparu i ysgolion, yn ogystal â'r gwaith paratoi y gallwn ei wneud gyda'n rhieni a'n hasiantaethau cymorth.

**Datganiad Gweledigaeth ADY Ceredigion:**
Creu system addysg gwbl gynhwysol yng Ngheredigion, lle rhoddir cyfle i ddysgwyr Ceredigion lwyddo a chael mynediad at ddarpariaeth addysg leol, sy'n diwallu eu hanghenion ac sy'n eu galluogi i gymryd rhan mewn dysgu, elwa ohono a'i fwynhau.

Mae awdurdod Ceredigion, fel Llywodraeth Cymru, yn credu mai cyfrifoldeb pawb yw gwella canlyniadau i blant a phobl ifanc ag anghenion dysgu ychwanegol. Yn unol â hynny, mae'n gweithio mewn partneriaeth ag ysgolion, rhieni ac asiantaethau eraill i sicrhau bod pob plentyn yng Ngheredigion, beth bynnag fo'i angen, yn cael ei werthfawrogi, yn profi llwyddiant yn eu dysgu, yn cyflawni eu potensial a'u nodau personol ac yn manteisio i'r eithaf ar eu siawns o fywyd llawn ac ystyrlon.

Ar bob cam bydd Ceredigion yn hyrwyddo annibyniaeth a gwydnwch pob disgybl, fel y gallant fyw bywydau urddasol yn eu cymuned leol, drwy ddarparu gwasanaethau cynaliadwy ac integredig sy'n eu cefnogi. Bydd yr holl wasanaethau'n cael eu datblygu drwy ddulliau

canolbwyntio ar yr unigolyn o gydweithio a chyd-gynhyrchu, sy'n pwysleisio trafodaeth wedi'i hwyluso am anghenion, canlyniadau a darpariaeth sy'n ystyried safbwyntiau, dymuniadau a theimladau ac sydd wedi'u cynllunio i osgoi neu ddatrys anghydfodau ac anghytundebau yn gynnar.

O dan y system ADY newydd, mae dyletswydd ar awdurdodau lleol i adolygu'r trefniadau a wneir gan ysgolion i ddiwallu anghenion dysgwyr ag ADY. Bydd y canllawiau hyn yn amlinellu egwyddorion a disgwyliadau Awdurdod Ceredigion ar gyfer addysgu plant a phobl ifanc ag Anghenion Dysgu Ychwanegol. Mae hefyd yn rhoi eglurder ar yr hyn a ddisgwylir gan ysgolion prif ffrwd Ceredigion, o ran diwallu anghenion dysgwyr ag ADY, a bydd yr awdurdod yn ei adolygu. Bydd y ddogfen hon yn rhan annatod o fframwaith yr awdurdod ar gyfer diwallu anghenion pob plentyn a pherson ifanc rhwng 0 a 25 oed.

**Mae Ceredigion eisoes mewn sefyllfa dda i weithredu llawer o egwyddorion y diwygiadau ADY newydd oherwydd:**

- ffafrio addysg brif ffrwd a darpariaeth gynhwysol;
- argaeledd ymyriadau a darpariaeth ADY drwy gyfrwng y Gymraeg;
- mae arfer sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn eisoes wedi'i wreiddio yn y rhan fwyaf o ysgolion Ceredigion;
- bydd ein system Panel Adnoddau yn parhau i fod yn effeithiol wrth ystyried atgyfeiriadau ysgolion ar gyfer cymorth ALl a CDU a gynhelir gan yr ALl;
- dangosodd 'arolwg Parodrwydd ADY' y tymor diwethaf fod llawer o'n hysgolion mwy yn hyderus y byddant yn gallu bodloni'r gofynion statudol;
- rydym wedi cyflwyno system o Bencampwyr CADY i gefnogi pob Cydlynydd Anghenion Dysgu Ychwanegol ymhellach, i sicrhau y byddant yn barod i fodloni gofynion y Ddeddf a'r Cod ADY;
- rydym wedi darparu cyllid ychwanegol i ysgolion i ddarparu amser ychwanegol di-gyswllt ar gyfer ein CADY, fel bod ganddynt yr amser i weithredu'r newidiadau angenrheidiol yn ystod y cyfnod pontio;
- mae ein tîm staff canolog wedi neilltuo un diwrnod yr wythnos ar gyfer gwaith paratoi â ffocws ar gyfer y system ADY. Bydd hyn yn parhau y tymor hwn;
- rydym wedi cynhyrchu Pecyn Cymorth ADY ar gyfer ysgolion y dylid fod wedi ei gwblhau a'i rannu erbyn y 9fed o Fedi.
- mae gan Geredigion fforwm amlasiantaethol sefydledig ar gyfer trafod a chefnogi plant cyn-ysgol mewn lleoliadau Meithrin, ac mae gennym brosesau pontio cadarn o'r Feithrinfa i'r ysgol.
- mae Ceredigion wedi sefydlu cysylltiadau agosach â staff ein sefydliad addysg bellach ac yn rhannu cyfrifoldeb am ddarpariaeth arbenigol ôl-19 (Camu Mlaen).

**Mae rhai risgiau hefyd yn gysylltiedig:**

- mae'r ffaith nad oes gennym ganllawiau clir a manylion terfynol y Cynllun Gweithredu diwygiedig, gan Lywodraeth Cymru ar ddechrau Medi, yn golygu ein bod yn gorfod gohirio ein gwaith paratoi gyda staff ysgol, rhieni ac asiantaethau partner;
- bu llawer o newidiadau i'r cynlluniau gweithredu dros y tair blynedd diwethaf sydd wedi arwain at ansicrwydd a diffyg hyder;

- ni ddylid tanbrisio'r llwyth gwaith cynyddol ar gyfer y CADY a staff ysgolion yn gyffredinol, wrth orfod gweithredu dwy system wahanol ochr yn ochr, ynghyd â'r newidiadau niferus a achosir gan gyfyngiadau COVID - ac mae'n debygol o arwain at fwy o straen;
- mae'r oedi sylweddol gan llywodraeth Cymru wrth gyhoeddi hyfforddiant ADY ar gyfer athrawon prif ffrwd yn golygu nad yw llawer ohonynt yn ddigon ymwybodol o'r cyfrifoldeb cynyddol y mae'r Ddeddf ADY a'r Cod yn ei roi arnynt. Mae hyfforddiant codi ymwybyddiaeth Ceredigion wedi hyrwyddo y byddant yn gyfrifol am nodi anghenion eu dysgwyr a darparu darpariaeth gynhwysol, drwy addysgu gwahaniaethol, ac ymyriadau safonol i ddiwallu anghenion eu dysgwyr yn yr ystafell ddosbarth. Lle nad yw hyn yn effeithiol, mae gan rieni a dysgwyr fwy o hawliau i apelio i Dribiwnlys Addysg Cymru;
- mae staff ysgolion hefyd yn canolbwyntio ar baratoi ar gyfer diwygio Cwricwlwm Newydd Cymru. Nid yw'r cysylltiadau agos rhwng diwygio'r cwricwlwm a diwygio ADY wedi cael eu hamlygu'n ddigonol gan Lywodraeth Cymru, sy'n golygu bod diwygio'r cwricwlwm wedi cael blaenoriaeth ar adegau dros ddiwygio ADY, er bod y system ADY eisoes yn statudol;
- mae’r llwyth gwaith cynyddol ar y tîm ADY canolog, o ganlyniad i newidiadau i'r system ADY yn drwm. Nid ydym wedi gallu recriwtio seicolegydd addysgol ac rydym wedi gorfod recriwtio seicolegydd addysg mewn hyfforddiant na fydd yn gallu dechrau yn y rôl tan Medi 2022. Bu'n rhaid i ni ail-hysbysebu’r swydd newydd Cydgysylltydd CDU fydd yn gyfrifol am ysgrifennu CDU a gynhelir gan yr ALl, ac i gydgysylltu'r ddarpariaeth a mynychu cyfarfodydd adolygu.

Bydd y system ADY newydd yn gweithredu ochr yn ochr â'r system AAA, yn ystod y cyfnod gweithredu tair blynedd. Darperir adolygiad o'r cynllun gweithredu a'r ddogfen egwyddorion a disgwyliadau, unwaith y bydd y cynllun gweithredu terfynol a'r wybodaeth wedi'u cadarnhau gan Lywodraeth Cymru.

Bydd dogfen Egwyddorion a Disgwyliadau Ceredigion yn cael ei chyflwyno i'r cabinet maes o law.

| | | | |
|---|---|---|---|
| **LLESIANT CENEDLAETHAU’R DYFODOL:** | **Oes Asesiad Effaith Integredig wedi ei gwblhau? Os na, esboniwch pam** | | Na,<br>Bydd Asesiad Effaith Integredig ADY yn cael ei gyflawni yn dilyn derbyn y cynllun gweithredu terfynol. |
| | ***Crynodeb:*** | | |
| | **Hirdymor:** | | |
| | **Cydweithio:** | | |
| | **Cynnwys:** | | |
| | **Atal:** | | |
| | **Integreiddio:** | | |
| **ARGYMHELLION:** | | | |

| | |
|---|---|
| Er gwybodaeth | |
| **RHESWM DROS YR ARGYMHELLION:** | |
| Er gwybodaeth | |
| **Enw Cyswllt:** | Meinir Ebbsworth<br><br>Gillian Evans |
| **Swydd:** | Swyddog Arweiniol Corfforaethol Gwasanaethau Ysgolion<br><br>Rheolwr Corfforaethol ADY, Cynhwysiant a Lles |
| **Dyddiad yr Adroddiad:** | Medi 2021 |
| **Acronymau:** | ADY- Anghenion Dysgu Ychwanegol<br>AAA- Anghenion Addysg Arbennig<br>CADY- Cydlynydd Anghenion Dysgu Ychwanegol<br>CDU- Cynllun Datblygu Unigol |

Eitem Agenda 6

**Cyngor Sir CEREDIGION County Council**

| | |
|---|---|
| **ADRODDIAD I'R:** | **Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Cymunedau sy'n Dysgu** |
| **DYDDIAD:** | **20 Medi 2021** |
| **LLEOLIAD:** | **Rhithiol** |
| **TEITL:** | **Proses dyfarnu canlyniadau TGAU a Lefel A 2021** |
| **DIBEN YR ADRODDIAD:** | **Er gwybodaeth** |
| **Y RHESWM PAM FOD Y PWYLLGOR CRAFFU WEDI GOFYN AM Y WYBODAETH:** | **Er gwybodaeth** |

**CEFNDIR:**

Cyhoeddwyd ym mis Tachwedd 2020 na fyddai arholiadau allanol TGAU na Lefel A yn eu dull traddodiadol yn digwydd yn ystod Haf 2021. Yn hytrach, rhoddwyd grŵp panel annibynnol at ei gilydd yn cynnwys Penaethiaid Uwchradd a phartneriaid eraill i ddyfeisio dull cenedlaethol cyson ar gyfer dyfarnu graddau arholiadau ar gyfer Haf 2021.

Nid yw trefn 2021 wedi efelychu trefn Haf 2020. Yn hytrach, cafodd disgyblion yn hasesu'n gyson ar gynnwys y manylebau arholiad o fis Mawrth tan ddiwedd Mai. Bu'n rhaid i bob ysgol uwchradd/gydol oed:

- gyflwyno rhaglen asesu drylwyr i Gyd Bwyllgor Addysg Cymru ar gyfer eu cadarnhad;
- addasu a chreu polisïau asesu ac apelio o'r newydd;
- ddarparu rhaglen o hyfforddiant i staff ar themâu megis tuedd a diogelu data;
- gyflwyno rhaglenni asesu pynciau unigol;
- llunio amserlen, asesiadau a chynlluniau marcio pwrpasol;
- marcio a chymedroli pob asesiad;
- cadw cofnod trylwyr o dystiolaeth cyflawniad disgyblion ym mhob asesiad a phob pwnc
- sicrhau trefniadau atebolrwydd grymus
- galluogi ac arwain ar y broses apelio
- cyflwyno dogfen rhesymeg i Gyd Bwyllgor Addysg Cymru yn egluro'r patrwm canlyniadau o'u cymharu â phatrymau'r gorffennol

Rhoddodd Cyd Bwyllgor Addysg Cymru drothwyon mewn lle ble fyddent yn dymuno sgyrsiau proffesiynol gydag ysgolion pe bai canlyniadau interim yn croesi'r trothwyon hynny. Ni chafwyd sgyrsiau proffesiynol rhwng Cyd Bwyllgor Addysg Cymru ag un o ysgolion uwchradd/gydol oed Ceredigion.

Bu’r gwaith uchod yn sylweddol a dwys mewn cyfnod byr iawn o amser. Mae ein diolch yn aruthrol i Benaethiaid, timoedd arwain, athrawon a staff ysgolion am eu gwaith proffesiynol ardderchog yn cefnogi ein disgyblion yn ystod y cyfnod hwn.

Er nad yw’n bosib cymharu eleni a llynedd, isod mae tabl yn nodi’r ddwy flynedd, er gwybodaeth yn unig.

**Canlyniadau TGAU**

| **Dangosydd ~ Indicator** | **2020** | **2021** |
|---|---|---|
| Capped9 | 392 | 386 |
| 5A*-C (Iaith a Mathemateg/Language and Maths) | 68.8 | 67.7 |
| 5A*-G | 94.8 | 95.9 |
| 5A*-A | 29.3 | 33.8 |
| Maths gorau ~ Best maths | 72.9 | 72.8 |
| Maths | 71.4 | 70.8 |
| Rhifedd ~ Numeracy | 68.0 | 68.0 |
| Cymraeg ~ Welsh | 82.1 | 81.6 |
| Saesneg ~ English | 73.8 | 75.1 |
| Gwydd ~ Science | 76.8 | 74.8 |

**Canlyniadau Safon Uwch**

| **Dangosydd ~ Indicator** | **2020** | **2021** |
|---|---|---|
| 3A*-C | 75.6 | 79.1 |
| 3A*-A | 27.2 | 35.4 |

| | | |
|---|---|---|
| TotPoints | 855 | ~ |

| | | |
|---|---|---|
| **LLESIANT CENEDLAETHAU'R DYFODOL:** | **A oes Asesiad Effaith Integredig wedi'i gwblhau? Os na, nodwch pam**<br>***Crynodeb:***<br>**Hirdymor:**<br>**Integreiddio:**<br>**Cydweithio:**<br>**Cynnwys:**<br>**Atal:** | Nac oes |

**ARGYMHELLIAD**

Er gwybodaeth

**Y RHESWM DROS YR ARGYMHELLIAD:**

Er gwybodaeth

| | |
|---|---|
| **Enw Cyswllt:** | Meinir Ebbsworth |
| **Swydd:** | Swyddog Arweiniol Corfforaethol – Ysgolion |
| **Dyddiad yr Adroddiad:** | 1af Medi 2021 |
| **Acronymau:** | |

Mae'r dudalen yn wag yn fwriadol

Eitem Agenda 7

## Cyngor Sir CEREDIGION County Council

| | |
|---|---|
| **ADRODDIAD I'R:** | **Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Cymunedau sy'n Dysgu** |
| **DYDDIAD:** | **Medi 20fed 2021** |
| **LLEOLIAD:** | **Trwy fideogynadledda** |
| **TEITL:** | **Llythyr Estyn, tymor yr Haf 2021** |
| **PWRPAS YR ADRODDIAD:** | **Er gwybodaeth** |
| **RHESWM PAM BOD Y PWYLLGOR WEDI GOFYN AM Y WYBODAETH:** | |

**CEFNDIR:**

Ym mis Tachwedd 2020 cynhaliodd Estyn ymweliad rhithiol gyda swyddogion y Gwasanaeth Ysgolion a Diwylliant yn arfarnu ein gwaith yn cefnogi ysgolion yn ystod cyfnod Covid. Danfonwyd llythyr yn amlinellu eu barn ac fe gyflwynwyd y llythyr hwnnw i'r pwyllgor hwn, Cabinet a'r Pwyllgor Awdit. Darparodd Estyn adroddiad cenedlaethol cyfansawdd ag iddo argymhellion penodol.

Ym mis Mai 2021 cynhaliodd Estyn ail ymweliad gyda phob Awdurdod Lleol i ffocysu ar ein gwaith yn ymateb i'r argymhellion yn yr adroddiad cenedlaethol. Danfonwyd llythyr gan Estyn yn amlinellu ein gwaith yn y meysydd hynny at y Prif Weithredwr ar 16eg Gorffennaf 2021.

| | |
|---|---|
| **LLESIANT CENEDLAETHAU'R DYFODOL:** | **Oes Asesiad Effaith Integredig wedi ei gwblhau? Os na, esboniwch pam**<br>***Crynodeb:***<br>**Hirdymor:**<br>**Cydweithio:**<br>**Cynnwys:**<br>**Atal:**<br>**Integreiddio:** |

**ARGYMHELLION:**
I nodi cynnwys y llythyr gan Estyn

**RHESWM DROS YR ARGYMHELLION:**

| | |
|---|---|
| **Enw Cyswllt:** | Meinir Ebbsworth |
| **Swydd:** | Prif Swyddog Addysg |
| **Dyddiad yr Adroddiad:** | 22.7.21 |
| **Acronymau:** | |

Estyn
Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru
Her Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

16.07.21

Annwyl Eifion Evans,

Diben y llythyr hwn yw rhoi trosolwg i chi o'r cynnydd a wnaethoch yn gysylltiedig ag argymhellion yr adroddiad thematig cyffredinol a gyhoeddom ym mis Ionawr. Mae'r naratif yn adlewyrchu'r wybodaeth a'r safbwyntiau a rannoch gyda'n harolygwyr cyswllt yn ystod eu hymgysylltiadau â chi trwy gydol y tymor.

Nododd yr adroddiad thematig 5 argymhelliad i Lywodraeth Cymru a chydnabu fod angen dull system gyfan i fynd i'r afael â'r rhain. Roedd y tri argymhelliad cyntaf yn fwy uniongyrchol a brys eu natur, ond bydd hi'n cymryd mwy o amser i fynd i'r afael â'r ddau argymhelliad olaf. O'n trafodaethau gyda chi, adborth gan ddysgwyr a'n gwaith ymgysylltu ag ysgolion, mae'n glir y gwnaed cynnydd ledled Cymru, trwy gydweithredu, o ran rhoi offer i ysgolion a dysgwyr i ddarparu gwell profiadau dysgu o bell yn ystod yr ail gyfnod clo.

Yn unol â'n dull newydd ar gyfer adroddiadau thematig, byddwn yn ysgrifennu i Lywodraeth Cymru ddechrau 2022 i geisio adborth ar y gwaith a wnaethant i fynd i'r afael â'r argymhellion a wnaed gennym ni iddyn nhw.

Gobeithio bydd y crynodeb hwn yn gadarnhad defnyddiol i chi o'r gwaith a wnaethoch i gefnogi'ch dysgwyr a'ch cymunedau dysgu yn ystod y chwe mis diwethaf.

**A1 Ymateb ar frys i fynd i'r afael â'r rhwystrau rhag dysgu gartref, yn enwedig lle mae'r rhain yn ymwneud a diffyg mynediad i gyfrifiaduron neu gyswllt a'r we**

Mae'r awdurdod wedi parhau i ddarparu offer technegol ar gyfer disgyblion yn ystod yr ail gyfnod clo. Maent wedi mireinio eu darpariaeth trwy addasu'r dyraniad offer fel eu bod yn gweithio oddi ar safleoedd ysgolion yn ddidrafferth. Golyga hyn fod y broses o ddosbarthu'r offer o'r ysgolion i'r cartrefi wedi bod yn fwy hwylus a chyflym nag yn ystod y cyfnod clo cyntaf. Defnyddiodd yr awdurdod y grant Ed Tech i brynu oddeutu 2800 o declynnau newydd a 65 dyfais Mi-Fi gan eu rhannu gyda disgyblion a oedd eu hangen. Llwyddwyd i ddarparu dyfais i bob teulu a wnaeth gais amdanynt drwy'r ysgol.

Mae'r awdurdod wedi paratoi cytundebau defnydd derbyniol ac wedi eu rhannu gyda'r ysgolion er mwyn iddynt eu dosbarthu i'r cartrefi gyda'r offer. Yn ogystal â darparu offer i deuluoedd a oedd angen teclynnau, darparodd yr awdurdod raglen hyfforddiant gynhwysfawr er mwyn codi lefel medrau staff a disgyblion.

Mae ychydig iawn o ardaloedd yng Ngheredigion ble nad oes signal ffôn symudol, sy'n golygu nad yw offer Mi-Fi yn gweithio 'chwaith. Cafodd disgyblion a oedd yn byw yn yr ardaloedd hyn y cynnig i fynychu'r ysgolion i ddysgu wyneb yn wyneb ag oedolion, neu dderbyn pecynnau papur i weithio arnynt yn y cartref.

Yn ddiweddar, mae'r awdurdod wedi cynnal awdit o ba offer fyddai ei angen ar ysgolion mewn sefyllfa o gyfnod clo arall. Mae'r awdit hwn wedi adnabod yr angen i ddarparu craffwyr i athrawon fedru modelu gwaith wrth addysgu o bell. Ar sail yr awdit hwn, mae'r awdurdod yn bwriadu darparu offer i bob disgybl yn hytrach nac un i bob cartref, ynghyd â darparu clustffonau i'w cynorthwyo i ymgysylltu'n fwyfwy effeithiol mewn gwersi.

Wrth edrych tua'r dyfodol, mae gan Geredigion gynlluniau ar y gweill i gynnig teclynnau i deuluoedd ar gytundeb talu nôl dros dair blynedd.

**A2 Gwella ansawdd y profiadau dysgu o bell a dysgu cyfunol i ddisgyblion trwy gefnogi addysgu mwy effeithiol ar draws ac o fewn ysgolion ac UCDau**

Mae gan yr awdurdod drosolwg da o'r sefyllfa yn yr ysgolion. Mae hyn yn cynnwys natur a llwyddiant y profiadau dysgu mae'r staff yn gynnig a'r ymglymiad oddi wrth ddisgyblion. Mae gan y ymgynghorwyr afael cadarn o anghenion hyfforddi staff yr ysgolion. Maent yn cynnal galwadau ymgysylltu gyda phenaethiaid tua phob tair wythnos, ac maent yn holi am natur y sesiynau ym mhob dosbarth, yr amserlenni a'r gwahaniaethu.

Cynhaliwyd y galwadau ymgysylltu gyda naws bugeiliol wrth i'r ymgynghorwyr ffocysu ar ansawdd y profiad dysgu o bell ac ymglymiad disgyblion. Cyfeiriwyd ysgolion at raglen gynhwysfawr hyfforddiant Technoleg Gwybodaeth a Chyfathrebu (TGCh) yr awdurdod ar eu gwefan 'Rhaglen Garlam Ceredigion' er mwyn hybu medrau staff a disgyblion. Er enghraifft, darparwyd pecynnau hyfforddi safonol ar-lein ar gyfer ystod eang o feddalwedd addas i gefnogi addysgu a dysgu o bell. Nododd yr awdurdod bod canlyniadau eu holiaduron yn dangos bod ysgolion yn gwerthfawrogi'r pecyn hyfforddi ar-lein a'r weminarau defnyddiol ar sut i addysgu gwersi cyfunol ac asesu disgyblion.

Mae gan yr awdurdod ymwybyddiaeth gadarn o anghenion hyfforddi staff trwy'r ymgysylltiadau rheolaidd. Maent wedi bod yn cynnig sesiynau uwch-sgilio wythnosol i staff yr awdurdod sydd wedi eu teilwra i'w anghenion trwy'r cyfnod clo. Mae'r awdurdod yn ymwybodol o bwy oedd yn mynychu pob hyfforddiant, gyda'r ymgynghorwyr yn cyfeirio ysgolion tuag at rhai sesiynau hyfforddi penodol pan yn addas. Bu'r swyddogion yn monitro lefel yr ymglymiad dros amser ar lefel ysgol unigol. Er bod yna deimlad fod rhai dysgwyr wedi dechrau colli diddordeb erbyn diwedd y clo cyntaf, roedd yr ymglymiad yn ystod yr ail glo yn sylweddol well. Mae nifer o ysgolion yn medru dangos ymglymiad o 100% yn ystod y cyfnod, gyda phob ysgol yn ymgysylltu â'r cartrefi pan nad oedd disgyblion yn cyflawni gwaith neu fynychu sesiynau. Bu'r Unedau ADY a'r Uned Gyfeirio Disgyblion ar agor i bob disgybl trwy gydol yr ail gyfnod clo, a bu lefelau presenoldeb yn gyson dda ynddynt.

Mae swyddogion addysg yn ychwanegu pecynnau o adnoddau pynciol a thrawsgwricwlaidd at eu gwefan 'Carlam' yn rheolaidd. Mae'r pecynnau hyn yn gymorth i ysgolion gan eu bod yn ffocysu ar y medrau, ond o fewn cyd-destunau diddorol a chyffrous.

Yn ddiweddar, ers gadael ERW, mae'r awdurdod wedi creu tudalen adnoddau Ceredigion ar y we sy'n ganolfan i'w cynnig dysgu proffesiynol. Maent yn ymwybodol iawn o lesiant staff ac yn ofalus i beidio gorlwytho'r gweithlu gyda gormod o ddewisiadau eang yn 2021-2022. O ganlyniad, maent yn canolbwyntio'r arlwy hyfforddiant ar bedwar adran, sef medrau, lles, datblygu'r cwricwlwm a chefnogi diwygio ADY. Mae'r wefan yn cynnwys adnoddau hyfforddi perthnasol ar gyfer y bedair adran gyda thoreth gyfoethog o adnoddau i gefnogi a modelu. Mae pob fideo hyfforddi a ddefnyddiwyd eisoes wedi eu lleoli mewn ystorfa fel y gellir eu defnyddio i hyfforddi o'r newydd yn y dyfodol neu eu defnyddio'n sydyn i atgoffa staff.

**A3 Datblygu dulliau cydlynol i wella cynnydd ym medrau llythrennedd, rhifedd a medrau personol a chymdeithasol disgyblion bregus y mae'r pandemig wedi effeithio'n anghymesur arnynt, er enghraifft disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim**

Mae'r awdurdod yn sicrhau bod yr ymgynghorwyr cefnogi ysgolion yn ymwybodol o'r arian a dderbyniodd pob ysgol, ac yn gwybod sut y'i defnyddiwyd. Maent hefyd yn holi penaethiaid am esboniad a chyfiawnhad am y gwariant yn sgil yr arian ychwanegol.

Yn ystod fforymau arweinwyr ysgolion, bu cyfleoedd gan benaethiaid i rannu syniadau a chyd-gynllunio gwariant o'r grantiau. Wrth i'r ail glo gychwyn, gwelodd ysgolion uwchradd y budd o gyflogi athrawon am oriau penodol mewn sawl maes er mwyn taclo'r anghenion o fewn eu hysgolion. Er enghraifft, cyflogodd un ysgol uwchradd dri athro ar gytundebau rhan amser amrywiol i dargedu iechyd a lles dysgwyr drwy gyfrwng y pwnc addysg gorfforol, cymorth academaidd ychwanegol i ddisgyblion oedd yn pontio ac ymyraethau rhifedd i ddisgyblion cyfnodau allweddol 3 a 4.

Mae arweinwyr ysgol wedi datgan eu gwerthfawrogiad am drefniadau'r awdurdod i gynyddu capasiti ysgolion i gefnogi lles disgyblion bregus ac i ddatblygu eu medrau cymdeithasol. Ers Medi, mae'r awdurdod wedi neilltuo cynorthwywyr ymddygiad, gweithwyr ieuenctid, gweithwyr cyfiawnder yr ifanc a staff canolfannau hamdden i weithio mewn ysgolion uwchradd a phob oed.

Yn gyffredinol, gwelodd yr ysgolion yr angen i gryfhau medrau llafaredd, a llafaredd Cymraeg yn benodol. Mewn ymateb i hyn, paratôdd swyddogion addysg adnoddau i gefnogi hybu llafaredd Cymraeg disgyblion. Yn eu mysg, mae adnoddau llafaredd 'Dosbarth Iaith' rhithiol wedi'u creu a'u rhannu ar gyfer ail adeiladu sgiliau llafaredd disgyblion a chodi eu hyder i ddefnyddio'r iaith. Mae'r adnoddau yn amrywiol ac yn ddefnyddiol. Mae eu hymgysylltiadau gyda'r ysgolion yn dangos fod peth tystiolaeth ansoddol yn yr wythnosau diwethaf yn nodi bod disgyblion yn dechrau 'ail afael' yn eu Cymraeg. Ni chafwyd achosion o ddisgyblion yn newid cyfrwng ysgolion yn ystod y cyfnod clo.

Roedd anogaeth gadarn i ysgolion flaenoriaethu medrau cymdeithasol y disgyblion ieuengaf. Llwyddodd nifer o ysgolion i haneru maint eu dosbarthiadau oherwydd y cyllid ychwanegol a dderbyniwyd trwy grantiau. Tra bod disgyblion mewn grwpiau llai, targedwyd eu medrau llafar a chydweithiodd staff yn agos gyda'r tîm Ysgolion Iach i dargedu chwarae rhydd gyda'r disgyblion ieuengaf. Mae rhaglenni ar waith ar gyfer datblygu effeithiolrwydd rhaglen y Blynyddoedd Rhyfeddol ymhellach, defnydd o'r ardal allanol ac i ddatblygu sgiliau gwrando disgyblion.

Roedd darpariaeth arloesol e-sgol wedi ei sefydlu eisoes gan Geredigion cyn cyfnod y pandemig. Roedd y ddarpariaeth hon yn darparu gwersi o bell, ac un o'r amcanion gwreiddiol oedd ehangu'r dewis ar gyfer disgyblion Safon Uwch yng Ngheredigion. Yn ystod y pandemig, mae'r adnodd hwn wedi cael ei ddefnyddio i gyfoethogi addysg disgyblion Ceredigion ac ar draws Cymru. Sicrhaodd Ceredigion diwtoriaid ar gyfer 10 o bynciau ar draws blynyddoedd 11 i 13, gyda'r rheiny yn cael eu cynnig yn ddwyieithog pan yn bosib. Fel rhan o'r cynnig hwn, mynychodd 300 o ddisgyblion Lefel A sesiynau adolygu ar draws 4 pwnc, yn y ddwy iaith yng Ngheredigion, gyda 3,000 yn mynychu yn genedlaethol. Mae cynlluniau ar y gweill i drefnu digwyddiadau tebyg o Ionawr 2022 ymlaen i rychwant ehangach o bynciau ac i safon TGAU.

**A4 Sefydlu strategaethau i fonitro ac i fynd i'r afael ag effaith hirdymor y pandemig ar iechyd corfforol ac iechyd meddwl disgyblion**

Mae swyddogion wedi defnyddio holiaduron lles a data holiadur y Comisiynydd Plant er mwyn arfarnu lefelau iechyd corfforol a iechyd meddwl disgyblion y Sir. Mae hyn yn ychwanegu at y wybodaeth a gasglwyd yn ystod y galwadau ymgysylltu. Mae swyddogion yn medru cynorthwyo ysgolion i esgyn at wasanaethau eraill os oedd angen, er enghraifft trwy'r Porth Cymorth Cynnar.

Mae craffu ar ddata atgyfeiriadau amddiffyn plant yn caniatáu swyddogion i adnabod patrymau a pharatoi adnoddau i gefnogi. Mae atgyfeiriadau i wasanaethau arbenigol wedi codi ers y cyfnod clo cyntaf, yn enwedig ym maes lles ac iechyd meddwl a thrais yn y cartref. Er bod yr awdurdod wedi darparu sesiynau cwnsela ar-lein, sylweddolwyd nad oedd hyn yn ddelfrydol i ddisgyblion i dderbyn eu sesiynau yn y cartref. Ers i sesiynau wyneb yn wyneb ail ddechrau, mae'r nifer sy'n derbyn cynhaliaeth cwnsela wedi mwy na dyblu, gyda thua traean o'r nifer yma ar y rhestr aros yn barod. Mae'r awdurdod yn gweithio'n rhagweithiol i ddatrys y sefyllfa trwy gynnig ymyraethau cynnar cyn bod angen cefnogaeth cwnsela, er enghraifft, trwy ddefnydd pwrpasol o 'hafan' ysgolion i gefnogi lles grwpiau penodol o ddisgyblion. Yn ogystal, mae'r defnydd o ELSAs (Emotional Literacy Support Assistant) yn nodwedd lwyddiannus o'r ddarpariaeth lles. Mae'r gwasanaeth seicoleg addysg wedi llunio rhaglen hyfforddi ar gefnogi lles oddi fewn y dosbarth, sef rhaglen chwe awr yn seiliedig ar seicoleg sydd yn rhan o'r rhaglen hon. Erbyn diwedd tymor yr haf, bydd gan 88% o ysgolion Ceredigion aelod ELSA hyfforddedig fel aelod o staff i gefnogi disgyblion. Yn y cyfamser, maent yn darparu cymorth i ysgolion trwy rannu arfer dda gan ddefnyddio fideo gynadledda. Lluniwyd crynodeb o'r holiadur 'Coronofeirws a fi[1]' a oedd yn rhannu'r prif bwyntiau gydag ysgolion. Lluniwyd adnoddau i gyd-fynd gyda'r pryderon a nodwyd yn yr holiaduron a'u rhannu â phob ysgol.

Mae swyddogion yn cadw bas data manwl a chyfredol o unrhyw achosion o bresenoldeb isel. Mae'r tîm cynhwysiant yn gweithio'n agos gyda'r teuluoedd i annog disgyblion i ddychwelyd i'r ysgol. Maent wedi llwyddo i leihau'r nifer o ddisgyblion nad oedd wedi dychwelyd i'r ysgol yn sylweddol.

Mae'r awdurdod yn canolbwyntio ar hybu iechyd corfforol disgyblion mewn tair ffordd; trwy hyfforddi ysgolion mewn llythrennedd corfforol, gweithio gyda phartneriaid er mwyn blaenoriaethu eu gwaith ar chwarae yn y sector cynradd a iechyd meddwl yn yr uwchradd, a thrwy hyrwyddo'r defnydd o'r ardaloedd awyr agored. Maent hefyd yn hybu iechyd corfforol a iechyd meddwl disgyblion trwy baratoi pecynnau trawsgwricwlaidd ar gyfer ysgolion. Mae'r pecynnau yn cynnwys fideos o syniadau ar gyfer gweithgareddau corfforol, negeseuon gan enwogion i ysbrydoli disgyblion i gymryd rhan mewn gweithgareddau ymarfer corff a syniadau lu i ysgolion ar gyfer cefnogi disgyblion i gadw'n heini. Yn ogystal, maent yn ffocysu ar y fframwaith ysgol gyfan ar gyfer Lles a Iechyd Meddwl. Maent wedi darparu crynodeb o'r fframwaith ar lesiant meddyliol ac emosiynol ac wedi cyflwyno hyn i staff mewnol a phartneriaid proffesiynol sy'n gweithio gyda'r ysgolion.

---

[1] Coronafeirws a Fi: Ail arolwg cenedlaethol o safbwyntiau a phrofiadau plant a phobl ifanc yng Nghymru, Ionawr 2021. Comisiynydd Plant Cymru.

Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru
Her Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

Mae'r awdurdod hefyd yn cynnig rhaglen llesiant rhithiol sy'n rhoi arweiniad i bob aelod o staff ym mhob ysgol ar sut i ofalu am eu lles personol.

**A5 Creu cyfleoedd i bwyso a mesur a gwerthuso effaith polisïau ac arferion a ddatblygwyd yn ystod y cyfnod hwn i lywio ffyrdd o weithio yn y dyfodol a dylunio'r cwricwlwm**

Mae trefniadaeth gwerthuso a chynllunio'r gwasanaeth addysg yn drwyadl a thryloyw. Maent wedi ei strwythuro mewn tair haen, gyda phob is-haen yn cwblhau proses o hunanwerthuso sy'n bwydo i'r haen nesaf. Mae holiaduron penaethiaid yn rhan bwysig o'r broses, sy'n derbyn sylw manwl fel tystiolaeth ac yn ganolbwynt i'r broses gynllunio. Er enghraifft, dengys adborth penaethiaid bod angen mwy o gefnogaeth ar rhai ysgolion wrth ddarparu cefnogaeth i ddisgyblion sydd â Saesneg fel iaith ychwanegol (EAL). Trwy graffu ar y wybodaeth o'r hunanwerthusiad, roedd yr awdurdod yn medru trefnu rhwydwaith EAL rhwng yr ysgolion hyn.

Mae'r gwasanaeth yn gwerthuso effaith y polisïau ac arferion a ddatblygwyd yn ddiweddar wrth fonitro cynnydd yn chwarterol. Mae adnoddau'r gwasanaeth yn cael eu clustnodi a'u diwallu er mwyn cefnogi blaenoriaethau adrannau penodol.

Yn sgil llwyddiant darparu hyfforddiant ar-lein ers y cyfnod clo cyntaf, mae rhaglen hyfforddiant yn cael ei chynnal yn rhithiol gydag arlwy hyfforddiant gynhwysfawr ar y gweill ar gyfer diwrnodau dysgu proffesiynol ysgolion yn ystod tymor yr haf a'r hydref. Mae yna ffocws cryf ar baratoi ysgolion ar gyfer y cwricwlwm newydd. Mae secondiad Cydlynydd Cwricwlwm i Gymru wedi ei ymestyn am flwyddyn ychwanegol er mwyn sicrhau dilyniant a pharhad yn y gwaith yr oedd ysgolion eisoes wedi ei ddechrau. Y bwriad yw i gynyddu'r momentwm trwy greu rhwydweithiau Meysydd Dysgu a Phrofiad (MDaPh) ac i ariannu 'pwerdy syniadau' ar gyfer pob MDaPh. Mae hyn yn cael ei gefnogi ymhellach trwy gynnig rhaglen ddysgu 'Coetsio a Mentora' ar gyfer uwch-arweinwyr cynradd ac uwchradd fel model o hyrwyddo, annog a pharhau i ddatblygu dysgu ac addysgu ym mhob ysgol.

Diolch i chi am eich gwaith ac am eich deialog proffesiynol parhaus gyda'n harolygwyr.

Cofion,



**Jassa Scott**
Cyfarwyddwr Strategol

Mae'r dudalen yn wag yn fwriadol

# Eitem Agenda 8

| **Cyngor Sir CEREDIGION County Council** | |
|---|---|
| **ADRODDIAD I'R:** | **Pwyllgor Craffu** |
| **DYDDIAD:** | **20fed o Fedi, 2021** |
| **LLEOLIAD:** | **Siambr y Cyngor, Penmorfa** |
| **TEITL:** | **Diweddariad ar gefnogaeth yr Awdurdod i Ysgolion wrth iddynt baratoi at fabwysiadu Cwricwlwm i Gymru** |
| **PWRPAS YR ADRODDIAD:** | **Er gwybodaeth** |
| **RHESWM PAM BOD Y PWYLLGOR WEDI GOFYN AM Y WYBODAETH:** | |

**CEFNDIR:**

Mae dros chwe blynedd ers i Lywodraeth Cymru benderfynu comisiynu'r Athro Graham Donadson i adolygu Cwricwlwm a Threfniadau Asesu Cymru. Dyna oedd cychwyn y daith i lunio cwricwlwm newydd i ysgolion Cymru.

Ers i'r llywodraeth gytuno i fabwysiadu'r 68 argymhelliad yn adroddiad yr Athro Donadlson, sef Dyfodol Llwyddiannus, gwnaethpwyd buddsoddiad enfawr i ryddhau athrawon i greu cwricwlwm newydd i Gymru. Cyrhaeddwyd y fersiwn derfynol o'r cwricwlwm ddiwedd Ionawr y llynedd. Y bwriad oedd rhoi cyfle digonol i ysgolion gyfarwyddo gyda'r egwyddorion a'r cynnwys ac i arbrofi gyda'i gyflwyno, cyn bod y cwricwlwm dod yn statudol ym Medi 2022. Yn anffodus, fodd bynnag, mae Covid wedi amharu gyda'r bwriad hynny yn rhannol.

Mewn ymateb i hynny, cyhoeddwyd haf eleni y bydd y cwricwlwm yn parhau i ddod yn statudol i bob blwyddyn ysgol yn y cynradd yn 2022, ond bydd yn cael ei gyflwyno'n raddol yn yr uwchradd yn 2023, gyda bl.7 ac 8 yn derbyn y cwricwlwm newydd yn gyntaf ac yna wrth iddynt hwy symud trwy'r Ysgol bydd y cwricwlwm newydd yn teithio gyda nhw.

**Y SEFYLLFA AR HYN O BRYD:**

Yn sgil Covid, newid yn y Ddeddf ADY a pharatoi at fabwysiadu cwricwlwm newydd, yn ddios, mae ysgolion yn wynebu'r cyfnod mwyaf o newid a welwyd erioed yn hanes addysg yng Nghymru.
Fel Adran Ysgolion rydym yn ymwybodol iawn o'r pwysau sydd ar ysgolion ac yn gwneud popeth o fewn ein gallu i'w cefnogi wrth iddynt drawsnewid eu darpariaeth i gwrdd â'r disgwyliadau newydd.

Rydym yn darparu'r gefnogaeth ganlynol i ysgolion:

1. Ymestynnwyd secondiad ein **Cydlynydd Cwricwlwm i Gymru**, sef Catrin Thomas, Pennaeth Ysgol Gynradd Aberaeron, am flwyddyn ychwanegol gan ei bod wedi bod yn amhosibl iddi gyflawni ei gwaith yn unol â'r cynlluniau gwreiddiol oherwydd Covid. Addaswyd rhaglen waith Catrin y llynedd fel ei bod yn medru parhau i yrru agenda Cwricwlwm i Gymru yn rhithiol. Bu'n rhedeg hyfforddiant rhithiol bytiog rheolaidd oedd yn fodd effeithiol iawn o barhau i ffocysu ar egwyddorion ac elfennau'r cwricwlwm newydd sef y pedwar diben, y chwe maes dysgu a phrofiad, y sgiliau trawsgwricwlaidd ac yn bennaf y deuddeg egwyddor addysgeg. Yn wythnosol derbyniodd ysgolion fwydlen o'r hyfforddiant oedd ar gael, gweler esiampl isod.

Cwricwlwm i Gymru
Curriculum for Wales

| Wythnos - Week 22-26.2.21 | | |
|---|---|---|
| **Dyddiad Date** | **Cynulleidfa/ Audience** | **Hyfforddiant/ Training: Ymuno/ Join Sianel CiG Tim Athrawon Ceredigion TEAMS CfW Channel** |
| 22.2.21 4-4.30pm<br>22.2.21 2-2.30pm | Athrawon a chynorthwywyr | Ail-gydio yn CiG: Prif Egwyddorion ac athroniaeth CiG: Pam? Sut? Beth? Pryd? Cofrestru yma |
| 24.2.21 2-2.30pm<br>24.2.21 4-4.30pm | Teachers and Support staff | CfW Refresher: Core principles and philosophy of CfW. Why? How? What? When? Cofrestru yma/Register here |
| 24.2.21 10-11am<br>25.2.21 4-5pm | Athrawon (Cymraeg) English next week. | Cyd-gerdded drwy Addysgeg: Rhaglen 12 sesiwn pythefnosol yn ymgyfarwyddo â'r 12 egwyddor addysgeg yn defnyddio adnodd 'Egwyddorion Rhagoriaeth' ERW. Cofrestru yma |
| Am wybodaeth pellach cysylltwch â/ For further information contact: Catrin.thomas@ceredigion.gov.uk | | |

Bu'r dull cyflwyno'n un hynod effeithiol gan fod staff ysgolion yn medru cael mynediad i'r hyfforddiant er gwaethaf y pandemig a gan nad oedd y sesiynau'n rhai maeth, roedd y staff yn medru ymuno heb lawer o effaith ar eu diwrnodau gwaith arferol. Roedd y

sesiynau ar gael yn y ddwy iaith ac yn cael eu hail adrodd er mwyn darparu mwy o gyfleoedd ymgysylltu.
Yn ogystal, mae Catrin yn darparu cefnogaeth un i un i ysgolion parthed datblygu'r cwricwlwm o fewn ysgolion. Mae hefyd yn cadw ei bys ar ddatblygiadau cenedlaethol ac yn rhaeadru gwybodaeth berthnasol gyda'r adran a'r ysgolion.

Mae'r **Cydlynydd Cwricwlwm i Gymru** hefyd yn arwain **Rhwydweithiau Meysydd Dysgu a Phrofiad**. Prif bwrpas y rhwydweithiau Meysydd Dysgu a Phrofiad yw datblygu modelau o ddulliau cynllunio a fydd yn cael eu cyflwyno fel 'penodau' dysgu i ysgolion Ceredigion. Mi fydd y 'penodau' dysgu wedi eu selio'n fras ar y cysyniad o 'Gynefin' a datblygu cwricwlwm lleol, 'blas o'n bro'. Hyderwn y bydd y penodau dysgu yn enghreifftio sut i gyflwyno'r cwricwlwm newydd yn draws ddisgyblaethol a bydd hyn yn rhoi hyder i ysgolion wrth ddylunio eu cwricwlwm eu hunain, sef un o brif ddisgwyliadau'r cwricwlwm newydd.

2. Mae **Tîm Athrawon Ymgynghorol Ceredigion** wedi llunio a dechrau darparu **hyfforddiant ar y Maesydd Dysgu a Phrofiad** ar ddwy lefel. Tymor yr haf diwethaf darparwyd hyfforddiant haen un, sef hyfforddiant yn ffocysu ar gyfarwyddo gyda strwythur y Meysydd Dysgu a Phrofiad, ac yna'r tymor hwn bydd yr hyfforddiant haen dau yn ffocysu ar edrych yn fanylach ar agweddau penodol o'r Meysydd Dysgu a Phrofiad.

   Mae pob un o'r sesiynau hyfforddiant haen un wedi eu recordio yn y ddwy iaith fel bod mynediad parhaus gan yr ysgolion atynt. Bydd hyfforddiant haen 2 yn cael eu cyflwyno fel fideos fel bod ysgolion yn medru cael mynediad atynt ar ddiwrnodau cau yn unol â'u trefniadau lleol.

   Mae cwmwl Covid wedi sicrhau datblygiadau sylweddol mewn sgiliau a defnydd o ystod eang o adnoddau TGCh ar gyfer addysgu ac ar gyfer hyrwyddo Datblygiad Proffesiynol Parhaus ein gweithlu. Un adnodd sydd wedi cael ei ddatblygu gan Dîm Athrawon Ymgynghorol Ceredigion dan arweiniad Kay Morris, ein Uwch Athrawes Ymgynghorol Technoleg Gwybodaeth, yw gwefan adnoddau Ceredigion sy'n eistedd ar blatfform Hwb**.**
   Mae tair rhan i'r wefan;
   1. **Y Cynnig Dysgu Proffesiynol**, lle restrir yr hyfforddiant a chyfleoedd datblygiad proffesiynol parhaus mae'r adran yn ei gynnig i'n hysgolion ar gyfer y flwyddyn gyfredol.
   2. **Trysorfa Adnoddau**, sef llyfrgell o wefannau, adnoddau addysgu parod a fideos o hyfforddiant sydd wedi eu cynnal eisoes.
   3. **Rhannu Arfer,** sef casgliad o astudiaethau achos sy'n arddangos a rhannu arfer dda.

3. **Secondiad Uwchradd.** Mae'r Awdurdod wedi secondio Gareth Evans, Dirprwy Bro Teifi'n rhan amser, fel Cydlynydd Ymholi ac Ymchwil. Nod y rôl hon yw arwain ar ystod o gyfleoedd ymchwil ac ymholiad proffesiynol i staff ysgolion Ceredigion. Mae'n cynorthwyo ysgolion i ddatblygu ymhellach ymagwedd 'Ysgol fel Sefydliad sy'n Dysgu' gan wreiddio egwyddorion

ymchwil, ymholi a chyd-weithio sefydliadol fel sail ar gyfer gwreiddio gwelliannau. Fel cerbyd ar gyfer cyflawni'r gwaith, sefydlwyd Cynllun Cadwyni. Mae Cadwyni yn gerbyd ar gyfer sicrhau cydweithredu a rhwydweithio effeithiol ac ystyrlon rhwng ymarferwyr a rhwng ysgolion er mwyn datblygu darpariaeth a safonau. Mae'n tynnu ysgolion sydd â blaenoriaethau a diddordebau tebyg at ei gilydd er mwyn goresgyn heriau. Mae'n dyfnhau partneriaethau mewn cyfnod o newid mawr ac yn sicrhau cysylltiadau gwerthfawr rhwng ysgolion o bob cefndir a maint. Mae'r defnydd o ymchwil yn greiddiol i waith Cadwyn ond hefyd, mae'r gadwyn yn darparu platfform ar gyfer rhannu allbwn y gwaith ar draws ysgolion.

Rydym yn darparu cyfleoedd rheolaidd i'n hysgolion i leisio barn am eu hanghenion ac am ansawdd a natur y gefnogaeth rydym yn ei ddarparu. Gwneir hyn mewn amryw o ffyrdd, e.e. holiaduron, sesiynau un i un gyda phenaethiaid a.y.b ac o'r herwydd rydym yn hyderus ein bod yn cwrdd â gofynion ein hysgolion. Er gwaethaf maint yr heriau sy'n eu wynebu ar hyn o bryd, rydym yn hyderus ein bod yn cynnig cefnogaeth fydd yn sicrhau fod pob ysgol yn llwyddo i ymgorffori'r newidiadau sydd ar y gweill yn llwyddiannus.

| | | |
|---|---|---|
| **LLESIANT CENEDLAETHAU'R DYFODOL:** | **Oes Asesiad Effaith Integredig wedi ei gwblhau? Os na, esboniwch pam** | Nac oes er gwybodaeth yn unig. |
| | ***Crynodeb:*** | |
| | **Hirdymor:** | |
| | **Cydweithio:** | |
| | **Cynnwys:** | |
| | **Atal:** | |
| | **Integreiddio:** | |

**ARGYMHELLION:**

Er gwybodaeth

**RHESWM DROS YR ARGYMHELLION:**

| | |
|---|---|
| **Enw Cyswllt:** | Mary Davies |
| **Swydd:** | Rheolwr Corfforaethol Gwella Ysgolion |
| **Dyddiad yr Adroddiad:** | Medi 2021 |
| **Acronymau:** | |

5

Mae'r dudalen yn wag yn fwriadol

Eitem Agenda 9

**Cofnodion Cyfarfod o'r**

**PWYLLGOR TROSOLWG A CHRAFFU CYMUNEDAU SY'N DYSGU**

a gynhaliwyd o bell drwy fideogynadledda ddydd Iau, 27 Mai 2021

**YN BRESENNOL:** Y Cynghorydd Wyn Thomas (Cadeirydd), y Cynghorwyr Bryan Davies, Euros Davies, Marc Davies, Odwyn Davies, Rhodri Davies, Endaf Edwards, Keith Evans, Paul Hinge, Hag Harris, Gwyn James, Alun Lloyd Jones, Mark Strong, Lynford Thomas ac Ivor Williams

**Hefyd yn bresennol:** Y Cynghorwyr Rhodri Evans, Gareth Lloyd, Catrin Miles, Catherine Hughes a Ray Quant (Aelodau Cabinet)

**Swyddogion yn bresennol**:- Mrs Meinir Ebbsworth, Swyddog Arweiniol Corfforaethol – Ysgolion, Mrs Non Davies – Rheolwr Corfforaethol – Gwasanaethau Diwylliant, Mr Silyn Roberts – Ymgynghorydd Her, Mrs Menna Jones – Uwch Athro Bro, Mrs Lisa Evans, Swyddog Craffu a Safonau a Mrs Dana Jones, Swyddog y Gwasanaethau Democrataidd a Safonau

(10:00am – 12:10pm)

1 **Ymddiheuriadau**

Ymddiheurodd y Cynghorwyr John Adams- Lewis a Meirion Davies am na fedrent ddod i'r cyfarfod.

Byddai'r Cynghorwyr Alun Lloyd Jones ac Ivor Williams yn gadael y cyfarfod yn gynnar oherwydd bod ganddynt ymrwymiadau eraill.

2 **Personol**

Diolchodd y cadeirydd newydd, y Cynghorydd Wyn Thomas i'r cadeirydd blaenorol, y Cynghorydd Endaf Edwards am ei waith yn ystod ei dymor. Bu i'r Cynghorydd Thomas hefyd ddiolch i Mrs Lisa Evans, Swyddog Craffu a Safonau am ei chefnogaeth, yn enwedig o ran mynychu cyfarfodydd ERW. Hefyd, bu i'r cadeirydd blaenorol ddiolch i'r ddau a dymunodd yn dda i'r Cynghorydd Thomas am y flwyddyn nesaf.

Bu i'r Cadeirydd hefyd ddymuno'n dda i'r Cynghorydd Paul Hinge fel Cadeirydd y Cyngor.

Croesawyd Mr Mike Hayes a Mr Gari Jones o ESTYN i'r cyfarfod. Byddent yn arsylwi ar y trafodaethau.

2 **Datgelu Buddiannau Personol / Buddiannau sy'n Rhagfarnu**

Dim.

**3 Diweddariad ar lafar parthed cefnogaeth y Gwasanaeth Ysgolion dros gyfnod COVID-19**

Rhoddodd y Swyddog Arweiniol Corfforaethol – Ysgolion ddiweddariad i'r Aelodau am yr hyn yr oedd y gwasanaeth ysgolion wedi'i wneud yn ystod cyfnod Covid-19 a'r gwaith a wnaed yn benodol o ran iechyd meddwl a llesiant y disgyblion. Rhannwyd y wybodaeth ganlynol ar ffurf cyflwyniad:-

- Y wybodaeth ddiweddaraf
- Graddau wedi'u pennu gan ganolfannau
- Cefnogi disgyblion
- Blas o'r gwaith a wnaed i dargedu sgiliau penodol
- Iechyd Corfforol

Diolchwyd i holl staff yr ysgolion yn ystod y cyfnod heriol hwn a diolchwyd am yr hyn a ddarparwyd ar-lein i ddysgu'r disgyblion.

4 **Y Gwasanaeth Cerdd: Defnyddio Darpariaeth Rithiol yn y Dyfodol**

Ers y cyfnod clo cyntaf ym mis Mawrth 2020 roedd Gwasanaeth Cerdd Ceredigion wedi parhau i gyflwyno gwersi offerynnol/lleisiol ar blatfform Microsoft Teams gyda'r nod o sicrhau bod disgyblion yn parhau i ymgysylltu â thiwtoriaid a gwneud cynnydd ar eu siwrnai ddysgu gerddorol.

Y gwasanaeth oedd y cyntaf yng Nghymru i ddarparu gwersi rhithiol, felly bu'n arwain yn y sector, ac yn sgil hynny mae'r Gwasanaeth, dan arweiniad Gareth Lanagan o brosiect e-sgol, wedi bod yn rhoi hyfforddiant a chymorth i wasanaethau cerddoriaeth eraill ledled Cymru. Gweithiodd staff y Gwasanaeth Cerdd yn ddiflino i addasu i'r ffyrdd newydd o weithio, gan ddysgu i ddefnyddio'r gwahanol blatfformau a oedd eu hangen i gyflwyno gwersi ar-lein – e.e. Flip Grid a Teams. Roedd y ddarpariaeth rithiol yn sicrhau bod disgyblion yn gallu parhau i ymgysylltu a pharhaodd tua 55% o'r disgyblion â'u hastudiaethau.

Dywedwyd wrth yr Aelodau fod sicrhau darpariaeth rithiol drwy gydol y cyfnod rhwng mis Mawrth 2020 a mis Mawrth 2021 wedi bod yn orchest fawr i'r Gwasanaeth. Mewn cymhariaeth, roedd Awdurdodau Lleol eraill wedi lleihau eu darpariaeth yn sylweddol gyda rhai'n rhoi'r gorau i holl ddarpariaeth eu gwasanaethau cerdd yn ystod y cyfnodau clo.

**Niferoedd:**

Roedd 665 o ddisgyblion wedi cael eu tiwtora yn ystod y flwyddyn:

Llinynnau 91
Chwythbrennau 144
Pres 139
Piano 135
Offerynnau taro 53
Llais 64
Telyn 14

Mewn cymhariaeth, roedd y niferoedd ar gyfer y flwyddyn flaenorol fel a ganlyn:

Llinynnau 356
Chwythbrennau 196
Pres 315
Piano 57
Offerynnau taro 104
Llais 98
Telyn 55

Wrth adolygu'r flwyddyn ddiwethaf a chynllunio ar gyfer y dyfodol, roedd y Gwasanaeth yn cydnabod y rhinweddau a’r heriau canlynol o ran y ddarpariaeth rithiol:

**Rhinweddau**

- Roedd y Gwasanaeth Cerdd yn gallu parhau i ymgysylltu â disgyblion
- Parhad a dilyniant i ddisgyblion
- Arbrofi gyda syniadau arloesol megis Taith Rithiol Peri – cyflwyniad i wersi offerynnol/lleisiol gan gyrraedd nifer fawr o ddisgyblion mewn un sesiwn
- Arbedion o ran y gyllideb a'r amser a dreulir yn teithio o un lleoliad i'r llall
- Roedd prosiect West End of Wales wedi dangos sut y gallai perfformiadau ar-lein hyrwyddo'r Gwasanaeth Cerdd a chyrraedd cynulleidfaoedd newydd

**Heriau**

- Gallai’r cysylltiad â'r we, gan gynnwys ansawdd sain gwael, beri trafferthion i ddisgyblion a thiwtoriaid
- Anawsterau wrth diwnio offerynnau – offerynnau llinynnol yn arbennig
- Anawsterau wrth gyfeilio o achos oedi ar-lein
- Anawsterau wrth atgyweirio offerynnau
- Dim gwaith grŵp/ensemble/cyngherddol a'r ymwneud cymdeithasol cysylltiedig sy'n annog cynnydd
- Anawsterau i ddechreuwyr heb yr hyfforddiant a'r cyflwyniad ymarferol sy’n angenrheidiol ar y cychwyn
- Roedd creu perfformiadau ar-lein, megis perfformiadau prosiect West End of Wales, yn gofyn am fewnbwn technolegol sylweddol ac arbenigedd allanol

**Ffactorau a ystyrir wrth fynd ymlaen**

Gan gydnabod bod y Gwasanaeth wedi addasu'n dda ac wedi edrych ar ffyrdd newydd ac arloesol o gyflwyno’i ddarpariaeth, dywedwyd y byddai’r Gwasanaeth Cerdd a'r Rheolwr Corfforaethol dros Ddiwylliant yn ystyried y canlynol wrth fynd ymlaen:

- Pan fydd yn ddiogel ac yn ddefnyddiol gwneud hynny, ailddechreuir y ddarpariaeth wyneb yn wyneb mewn ysgolion gan alluogi'r Gwasanaeth i ailadeiladu’r niferoedd i fel yr oedd cyn y pandemig ac ailgychwyn ensembles ysgolion.
- Gellid cynnig darpariaeth rithiol i ysgolion ar adegau penodol fel arbrawf yn y lle cyntaf. Byddai hyn yn helpu gydag anawsterau o ran yr amserlen yn sgil gweithgareddau eraill yr ysgolion megis gwibdeithiau, arholiadau TGAU a Safon Uwch ac ati.
- Drwy ddarpariaeth rithiol gallai'r Gwasanaeth Cerdd gyrraedd y gymuned yn ehangach e.e. Cartrefi Gofal, Grwpiau Cymunedol Gwledig, Wardiau Ysbytai. Byddai modd darparu perfformiadau wedi'u recordio ymlaen llaw neu berfformiadau sy’n cael eu ffrydio yn fyw a hynny fel cyngherddau amser cinio neu gyngherddau gyda'r nos.
- Gellid creu cyfres o arddangosiadau wedi'u recordio ymlaen llaw, megis Taith Rithiol Peri, a'u darparu i ysgolion neu rieni gan alluogi'r Gwasanaeth Cerdd i estyn allan i ragor o ddisgyblion posib.
- Er mwyn galluogi'r gwasanaeth i ddarparu darpariaeth rithiol o ansawdd uchel, byddai angen iddi oresgyn rhai o'r anawsterau cysylltedd a buddsoddi mewn offer hanfodol.

I gloi, dywedwyd y byddai’r ddarpariaeth rithiol yn parhau i gael ei defnyddio yn y dyfodol ar gyfer hyfforddiant un i un a pherfformiadau, yn enwedig wrth i'r bygythiad o ragor o achosion Coronafeirws barhau. Er bod y ddarpariaeth rithiol wedi bod yn llwyddiant, ni allai ddisodli dylanwad a phwysigrwydd tiwtora wyneb yn wyneb. Felly, byddai’r Gwasanaeth Cerdd yn ceisio datblygu model cyfunol at y dyfodol, gan gyfuno darpariaeth rithiol a darpariaeth wyneb yn wyneb er mwyn sicrhau'r profiad dysgu gorau posib i'r disgyblion.

Yn dilyn cwestiynau o’r llawr, CYTUNWYD i nodi’r adroddiad a gyflwynwyd a llongyfarch y gwasanaeth ar ei lwyddiant a’i frwdfrydedd yn ystod y cyfnod anodd hwn.

**5 Cytundeb Partneriaeth rhwng yr Awdurdod Lleol a’r Ysgolion 2021-24**

Dywedwyd bod Adran 197 o Ddeddf Addysg 2002 yn ddarpariaeth ar gyfer Cymru’n unig, sy’n rhoi’r pŵer i Lywodraeth Cenedlaethol Cymru (“LlC”) ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau lleol wneud cytundeb partneriaeth gyda chorff llywodraethol pob ysgol a gynhelir gan yr awdurdod. Pwrpas y Cytundeb Partneriaeth yw gwella a chynnal gwaith partneriaeth rhwng yr ALl ac ysgolion.

Roedd y Cytundeb Partneriaeth yn nodi’r trefniadau ar gyfer adolygu’r cytundeb a rhaid iddo gael ei adolygu bob 3 blynedd.

Byddai’r Cytundeb Partneriaeth arfaethedig rhwng yr Awdurdod Lleol a’r ysgolion yn rhedeg o Fedi 2021 tan Awst 2024.

Gellir crynhoi’r prif newidiadau i’r ddogfen fel a ganlyn:

- Newidiadau i gysylltiadau Ceredigion / manylion cyswllt
- Newidiadau o achos newid mewn deddfwriaeth ee. Rhaglen Trawsnewid AAA / Rheoliad Cyffredinol ar Ddiogelu Data (GDPR)
- Newidiadau i drefniadau Gwella ysgolion yn sgil Ceredigion yn tynnu'n ôl o Gonsortiwm ERW

Roedd yn bosib y byddai angen addasu ymhellach Adran 2 o'r Cytundeb Partneriaeth yn ystod cyfnod y cytundeb er mwyn cyfateb â 'Chanllaw Gwella Ysgolion: Fframwaith ar gyfer Arfarnu, Gwella ac Atebolrwydd' Llywodraeth Cymru.'

Yn dilyn cwestiynau o'r llawr, CYTUNWYD i argymell y Cytundeb Partneriaeth rhwng yr Awdurdod Lleol a'r Ysgolion ar gyfer 2021-24 er cymeradwyaeth y Cabinet.

**6 Cynllun Strategol y Gymraeg mewn Addysg 2022-32 (CySGA)**

Rhoddodd y Swyddog Arweiniol Corfforaethol – Ysgolion wybodaeth am y broses o roi Cynllun Strategol y Gymraeg mewn Addysg ar waith gan gynnwys y prosesau democrataidd ac ymgynghori. Dywedwyd mai cynllun 10 mlynedd oedd y CySGA ar gyfer y cyfnod rhwng 2022 a 2032 ac y byddai'n cael ei gyflwyno i Lywodraeth Cymru erbyn 31 Ionawr 2022. Roedd angen cynllunio yn unol â 7 deilliant statudol er mwyn datblygu a chryfhau lle'r Gymraeg o fewn addysg.

**Deilliant 1:** Mwy o blant meithrin / tair oed yn cael eu haddysg drwy gyfrwng y Gymraeg
**Deilliant 2:** Mwy o blant dosbarth derbyn / pump oed yn cael eu haddysg drwy gyfrwng y Gymraeg
**Deilliant 3:** Mwy o blant yn parhau i wella eu sgiliau Cymraeg wrth drosglwyddo o un cyfnod o'u haddysg statudol i un arall
**Deilliant 4:** Mwy o ddysgwyr yn astudio ar gyfer cymwysterau Cymraeg (fel pwnc) a phynciau drwy gyfrwng y Gymraeg
**Deilliant 5:** Mwy o gyfleoedd i ddysgwyr ddefnyddio'r Gymraeg mewn cyd-destunau gwahanol yn yr ysgol
**Deilliant 6:** Cynnydd yn y ddarpariaeth addysg cyfrwng Cymraeg i ddisgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol ("ADY") (yn unol â'r dyletswyddau a bennir gan y Ddeddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg (Cymru) 2018)
**Deilliant 7:** Cynnydd yn nifer y staff addysgu sy'n gallu addysgu Cymraeg (fel pwnc) a thrwy gyfrwng y Gymraeg

Rhoddodd y Swyddog Arweiniol Corfforaethol – Ysgolion ddiweddariad i'r Aelodau am sefyllfa ysgolion Ceredigion o ran pob un o'r deilliannau uchod a'r data i gefnogi'r sefyllfa bresennol a'r hyn fyddai'n digwydd yn y dyfodol.

Yn dilyn cyflwyniad manwl a chwestiynau o'r llawr, CYTUNWYD i argymell i'r Cabinet bod y cynllun yn destun ymgynghoriad cyhoeddus.

**7 Cadarnhau Cofnodion y Cyfarfod a gynhaliwyd ar 11 Mawrth 2021 ac ystyried unrhyw faterion sy'n codi o'r Cofnodion hynny**

CYTUNWYD i gadarnhau Cofnodion Cyfarfod y Pwyllgor a gynhaliwyd ar 11 Mawrth 2021 yn rhai cywir.

**8** **Ystyried y Flaenraglen Waith Trosolwg a Chraffu**
CYTUNWYD i nodi'r Flaenraglen Waith a gyflwynwyd yn amodol ar y canlynol:-
Darparu adroddiad am adborth yr ymgynghoriad ynghylch Cynllun Strategol y Gymraeg mewn Addysg 2022-32 yn y cyfarfod ym mis Tachwedd.

**Cadarnhawyd yng Nghyfarfod y Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Cymunedau sy'n Dysgu a gynhaliwyd ar 1 Medi 2021**

**Cadeirydd:_______**

## Cyngor Sir CEREDIGION County Council

| | |
|---|---|
| **ADRODDIAD I'R:** | **Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Cymunedau Sy'n Dysgu** |
| **DYDDIAD:** | **20 Medi 2021** |
| **LLEOLIAD:** | **Cyfarfod rhithiol** |
| **TEITL:** | **Blaenraglen Waith Ddrafft 2021/22** |
| **PWRPAS YR ADRODDIAD:** | **Adolygu rhaglen waith bresennol y Pwyllgor** |
| **Y RHESWM PAM FOD CRAFFU WEDI GOFYN AM Y WYBODAETH HON:** | **Mae blaenraglen waith y Pwyllgor yn cael ei harolygu a'i diweddaru ymhob cyfarfod** |

**CEFNDIR:**

Mae'r Pwyllgorau Trosolwg a Chraffu'n goruchwylio gwaith y Cyngor er mwyn sicrhau y darperir gwasanaethau yn y ffordd orau posib a hynny er budd y gymuned leol.

Swyddogaeth Trosolwg a Chraffu yw ystyried y gwasanaethau a'r materion sy'n effeithio ar bobl yng Ngheredigion. Mae'r broses yn rhoi cyfle i Gynghorwyr archwilio amryw swyddogaethau'r Cyngor, holi cwestiynau am sut y gwnaethpwyd penderfyniadau, ystyried os ellir gwneud gwelliannau i wasanaethau a gwneud argymhellion yn unol â hynny.

Mae craffu'n hanfodol wrth hyrwyddo atebolrwydd, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd wrth i'r Cyngor fynd ati i wneud penderfyniadau a'r ffordd mae'n darparu gwasanaethau.

Prif swyddogaethau'r Pwyllgorau Trosolwg a Chraffu yw'r canlynol:

- Galw'r Cabinet a'r Swyddogion i gyfrif ynghylch eu penderfyniadau
- Bod yn 'gyfaill beirniadol', drwy holi cwestiynau am sut y gwnaethpwyd penderfyniadau, fel bod y bobl sy'n penderfynu'n destun 'rhwystrau a gwrthbwysau', gan wneud y drefn o benderfynu yn fwy dilys
- Cynnal adolygiadau o wasanaethau a pholisïau'r Cyngor
- Cynnal adolygiadau ar gyfer datblygu gwasanaethau a pholisïau'r Cyngor
- Ystyried unrhyw fater arall sy'n effeithio ar y sir
- Sicrhau bod Ceredigion yn perfformio hyd eithaf ei allu ac yn darparu gwasanaethau o'r radd flaenaf i'w ddinasyddion
- Asesu effaith polisïau'r Cyngor ar gymunedau lleol, ac argymell ffyrdd o wella
- Gweithio gyda'r cyhoedd i ddatblygu polisïau a gwasanaethau sy'n canolbwyntio ar y dinasyddion.

Gall trefn effeithiol o Drosolwg a Chraffu arwain at y canlynol:

- Penderfyniadau gwell
- Gwelliant o ran Darparu Gwasanaethau a Pherfformiad
- Trefn gadarn ar gyfer Datblygu Polisïau, yn seiliedig ar ymgynghori â'r cyhoedd a chyfraniad arbenigwyr annibynnol
- Gwelliant o ran Democratiaeth, Cynhwysiant, Arweinyddiaeth Gymunedol ac Ymgysylltu
- Ychwanegu haen eglur o dryloywder ac atebolrwydd i brosesau gwleidyddol y Cyngor
- Rhoi cyfle i bob Aelod feithrin sgiliau a gwybodaeth arbenigol a allai fod o fudd yn y dyfodol wrth lunio polisïau a monitro perfformiad
- Creu diwylliant o hunan-herio ar sail tystiolaeth.

**Y SEFYLLFA BRESENNOL:**

**Cwestiynau i'w hystyried wrth ddewis pynciau**

- A oes amcan clir dros archwilio'r pwnc hwn?
- Ydych chi'n debygol o lwyddo i gael y canlyniad a ddymunir?
- Beth yw'r manteision tebygol i'r Cyngor a dinasyddion Ceredigion?
- Ydy'r mater yn un sylweddol?
- Oes yna gysylltiadau â'r Strategaeth Gorfforaethol?
- A yw'n fater allweddol i'r cyhoedd?
- Ydy'r materion wedi cael eu codi gan archwiliad allanol?
- A yw'n wasanaeth sy'n perfformio'n wael?

**Dewis pynciau**
Dylai Pwyllgorau Trosolwg a Chraffu ystyried gwybodaeth o'r Strategaeth Gorfforaethol, Cynllun Gwella, Cynllun Strategol, Cynlluniau Gwasanaeth, y Gofrestr Risg Gorfforaethol, arbedion yn y gyllideb – cynigion ac effaith, cyfarfodydd chwarterol y panel Rheoli Perfformiad Corfforaethol a mewnbwn adrannol wrth ddewis pynciau a chynllunio eu Blaenraglenni Gwaith, ynghyd ag unrhyw waith sy'n parhau.

**ARGYMHELLIAD (ARGYMHELLION):**

Adolygu a diweddaru'r Blaenraglen Waith bresennol.

| | |
|---|---|
| **Enw Cyswllt:** | Lisa Evans |
| **Dynodiad:** | Swyddog Craffu a Safonau |
| **Dyddiad yr Adroddiad:** | 13/9/2021 |
| **Acronymau:** | BW- Blaenraglen Waith<br>FWP- Forward Work Programme |

Blaenraglen Waith y Pwyllgorau Trosolwg a Chraffu 2021/22

| Pwyllgor | Eitem (disgrifiad/teitl) | Siaradwyr Gwadd | Pwrpas e.e. monitro, polisi, argymhellion |
|---|---|---|---|
| ***Cymunedau sy'n Dysgu*** | | | |
| 27 Mai | CYSGA<br><br>Defnyddio darpariaeth rithiol i'r dyfodol<br><br>Cytundeb Partneriaeth rhwng yr ALl a'r Ysgolion 2021-24 | Silyn Roberts<br><br>Meinir Ebbsworth/Non Davies | |
| 20 Medi | Cwricwlwm i Gymru<br><br>Strategaeth Anghenion Dysgu Ychwanegol<br><br>Diweddariad ar y Gwasanaeth Dysgu Gydol Oed a Sgiliau a'r Gwasanaeth Cymorth ag Atal.<br><br>Llythyr Estyn, tymor yr Haf 2021<br><br>Proses dyfarnu canlyniadau TGAU a Lefel A 2021 | Gillian Evans<br><br>Elen James<br><br>Meinir Ebbsworth<br><br>Meinir Ebbsworth | |
| 25 Tachwedd | Adroddiad ar chanlyniadau TGAU a Safon Uwch<br><br>Adborth o ymgynghoriad Cynllun Strategol y Gymraeg mewn Addysg 2022-32 | Meinir Ebbsworth<br><br>Silyn Roberts | |

| | | | |
|---|---|---|---|
| **<u>2022</u>**<br>24 Chwefror<br>Paratoi'r Gyllideb<br>1:30pm | Cyllideb | | |
| 2 Mawrth | Asesiad Digonolrwydd Gofal Plant | Carys Davies | |
| Cyfarfodydd y Dyfodol | Asesiad Digonolrwydd Chwarae | Cathryn Morgan | |
| Ffrydiau Gwaith | Safonau ac Ysgolion<br><br>ADY, Cynhwysiant a Lles<br><br>Porth Cymorth Cynnar | Meinir Ebbsworth<br><br>Gillian Evans<br><br>Elen James | |